Mynegai

		page
1.	Crynodeb	2
2.	Cylch Gwaith	5
3.	Methodoleg	6
4.	S4C yn yr Oes Cyn-Ddigidol	7
5.	S4C : 1997-2004	9
6.	Materion Allweddol yn 2004	12
7.	Pa mor effeithlon ac effeithiol yw S4C wrth reoli ei chostau?	19
8.	A all S4C gynyddu ei refeniw drwy ffynonellau heblaw grant yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)?	22
9.	Y Cynllun Corfforaethol Presennol : sylfaen ar gyfer cynllunio dyfodol S4C?	27
10.	Goblygiadau cynigion y Llywodraeth o ran dyfodol darlledu digidol i S4C	28
11.	Adolygiad Mewnol 2004 S4C	30
12.	Amserlen bosibl	33

Atodiadau :

1	Adroddiad yr Aseswr Iaith Gymraeg.	34
2	Adolygu Canolfannau Costau.	47
3	Adolygiad Mewnol S4C 2004 : Crynodeb.	49
4	Dogfennau a Ddarparwyd gan S4C a Sefydliadau Eraill.	51

1 Crynodeb

1. Pan lansiwyd S4C yn 1982, gwireddwyd angen a deimlwyd ers tro yng Nghymru am sianel Gymraeg gyhoeddus o safon. Roedd hefyd yn galluogi gwylwyr Cymraeg i wylio llawer o ddarllediadau Channel 4.

   Gwnaed trefniadau o'r cychwyn i'r BBC a HTV ddarparu rhaglenni i S4C, er y darperir y rhan fwyaf o raglenni Cymraeg gan gynhyrchwyr annibynnol bellach. Mae'r cytundeb gwreiddiol i BBC Cymru ddarparu 520 awr o raglenni Cymraeg y flwyddyn i S4C yn parhau.

2. Cynyddodd cyfrannau a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd hyd at ganol y nawdegau. Ers 1996, mae S4C wedi wynebu cystadleuaeth gynyddol am wylwyr gyda dyfodiad teledu aml-sianel a thwf arafach mewn refeniw nag mewn blynyddoedd cynharach. Dadleua'r sianel nad yw wedi derbyn y 'difidend digidol' a gynigiwyd i sianeli cyhoeddus eraill. Serch hynny mae wedi cyflwyno ystod ehangach o wasanaethau, am gost ychwanegol o tua £10 miliwn y flwyddyn. Cymerodd S4C gyfran gwerth traean o SDN, gweithredwr plethiad, yn 1998.

3. Ar hyn o bryd mae S4C yn wynebu nifer o faterion nas datryswyd:

   - Nid yw grant blynyddol y llywodraeth sy'n gysylltiedig â Mynegai Prisiau Adwerthu, a gyflwynwyd yn 1998, wedi cynyddu i gyfateb â chwyddiant darlledu, ac mae prif ffynhonnell refeniw arall y Sianel sy'n deillio o werthiannau hysbysebion mewn dirywiad hirdymor.
   - Mae cyfrannau a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd wedi lleihau ers canol y nawdegau, er ceir arwyddion bod cyrhaeddiad cynulleidfaoedd wedi sefydlogi bellach gan fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi dechrau cynyddu ar ôl cyfnod hir o ddirywiad.
   - Ar hyn o bryd mae S4C yn darlledu tri gwasanaeth rhaglenni – S4C, S4C Digidol a S4C2. Mae'r gwasanaethau digidol newydd yn rhoi pwysau ar gyllid y gwasanaeth rhaglenni craidd.
   - Mae angen adolygu partneriaeth barhaus S4C gyda'r BBC. Mae cyfraniad y BBC i S4C yn cynrychioli cyfran sylweddol lai o ffi'r drwydded nag yr oedd yn 1996.
   - Mae angen i S4C gynnal ac, mewn rhai achosion, ddatblygu cydberthnasau hirdymor gyda phartneriaid yng Nghymru ddatganoledig.
   - Hyd yn hyn diffiniwyd rôl a chylch gwaith S4C mewn ffordd a oedd yn addas ar gyfer yr oes analog ac efallai y bydd angen eu hadolygu cyn trosglwyddo i wasanaeth digidol.

4. Mae S4C yn cyflawni ei gylch gwaith yn fwy effeithlon ac effeithiol nag o'r blaen. Cyflawna'r pedwar amcan sylfaenol o ran gwasanaeth cyhoeddus a nodwyd gan Ddeddf Cyfathrebu 2003.

   Y brif ganolfan gostau yw cyllideb y rhaglenni. Mae S4C yn rheoli costau drwy gynyddu cyfran yr ailddarllediadau o fewn ei gwasanaeth cyffredinol, drwy leihau nifer y rhaglenni a gomisiynir yn Gymraeg fymryn a thrwy reoli costau ei chyflenwyr yn gadarn.

   Mae gorbenion S4C yn is na rhai ei chystadleuwyr cyhoeddus cenedlaethol.

   - **Argymhellir y dylai S4C barhau i feincnodi ei chostau rhaglenni a'i gorbenion yn erbyn darlledwyr eraill ac adolygu meysydd penodol o'i gweithrediadau yn rheolaidd.**

5. Ar hyn o bryd mae gan S4C dair prif ffrwd o refeniw masnachol, a reolir gan ei his-gwmni masnachol, S4C Masnachol : gwerthiannau yn ystod oriau darlledu a nawdd, gwerthiannau rhaglenni, cyn-werthiannau a chydgynhyrchiadau, gweithrediad plethiad (SDN).

   Mae refeniw o werthiannau yn ystod oriau darlledu mewn dirywiad hirdymor. Ychwanega cydgynhyrchiadau a chyn-werthiannau werth gwirioneddol i wasanaeth rhaglenni S4C, a dylent barhau i fod yn rhan hanfodol o strategaeth S4C. Ond mae'r Adolygiad diweddar o Ddarpariaeth Rhaglenni yn bwrw amheuaeth ar ddyfodol gweithrediadau dosbarthu rhaglenni mewnol S4C. Mae'r capasiti a bennwyd i SDN a S4C yn asedau gwerthfawr. Bydd angen i S4C benderfynu ar sut i fanteisio i'r eithaf ar yr asedau hyn.

   Mae perthynas S4C gyda'r BBC yn cynnig cyfle allweddol i ychwanegu gwerth at y gwasanaeth rhaglenni.

   - **Argymhellir y dylid adolygu gweithrediadau dosbarthu rhaglenni S4C yn sgîl yr Adolygiad o Ddarpariaeth Rhaglenni.**
   - **Argymhellir y dylid gwahodd y BBC a S4C, fel rhan o'r broses o Arolygu'r Siarter, i gytuno ar fformwla ar gyfer y rhaglenni a'r gwasanaethau eraill y mae'r BBC yn eu cyflenwi i S4C, a ariennir gan ffi'r drwydded, sy'n diwallu anghenion presennol darlledu cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.**

   Hefyd mae gan S4C ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi mentrau i ddatblygu'r diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru.

   - **Argymhellir y dylai S4C geisio chwarae rhan fwy cyflawn wrth ddatblygu'r agendâu diwylliannol ac economaidd cenedlaethol yng Nghymru.**

6. Noda adolygiad mewnol S4C ei blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Bydd y ddadl ar y cynigion a gynhwysir yn y ddogfen yn cael ei chynnal yn erbyn Cynllun Gweithredu Digidol y Llywodraeth, yr Arolwg o Siarter y BBC ac Adolygiad Darlledu Cyhoeddus OFCOM.

7. Yng Nghymru, mae gan dros 70% o unigolion fynediad i wasanaethau digidol eisoes. Wrth drosglwyddo i wasanaeth digidol, mae rhai materion yn codi sy'n effeithio'n benodol ar S4C – yn nodedig y gost debygol o ddarlledu ei gwasanaethau digidol. Mae ansicrwydd ynghylch trefniadau darlledu S4C ar ôl trosglwyddo i wasanaeth digidol yn atal penderfyniadau eraill rhag cael eu gwneud.

   - **Argymhellir y dylid darlledu gwasanaeth(au) digidol S4C ar yr un plethiad â darlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.**

   Pe byddai gwasanaeth digidol S4C yn cael ei ddarlledu ar un o'r plethiadau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, byddai gwerth SDN a'r capasiti a bennwyd iddo yn parhau gyda S4C o hyd. Bydd angen i S4C benderfynu ar y ffordd orau o fanteisio i'r eithaf ar werth yr asedau hyn. Bydd amseriad penderfyniadau yn bwysig.

8. Crynhoa adolygiad mewnol S4C y materion sy'n hanfodol 'ym marn y sianel' i'w llwyddiant yn y dyfodol sef:

   1. Cyflwyno gwasanaeth daearol digidol i'r un graddau â darlledwyr cyhoeddus eraill;
   2. Lefel briodol o amlygrwydd ar ddewislenni rhaglenni electronig ar gyfer gwasanaethau S4C, gan gynnwys y strand rhaglenni plant;

3. Adnoddau ychwanegol i wella ansawdd rhaglenni;
4. Adnoddau ychwanegol i ehangu ystod ac amrywiaeth y gwasanaeth Cymraeg;
5. Adnoddau ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau rhyngweithiol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd eraill a gynigir gan dechnoleg newydd, gan gynnwys band eang;
6. Sefydlu cydbartneriaethau gweithio effeithiol i greu gwerth ychwanegol.

Mae'r amcanion hyn yn gyflawnadwy, unwaith y gwneir penderfyniad ynghylch natur gwasanaeth rhaglenni S4C.

- **Argymhellir y dylai S4C weithredu un gwasanaeth craidd ar ôl trosglwyddo i wasanaeth digidol gyda chyfleuster – ar adegau – i rannu'r gwasanaeth.**
- **Argymhellir y dylai S4C Digidol gyflwyno gwasanaeth rhyngweithiol 'botwm coch' cyn gynted â phosibl.**

9. Bydd angen gwneud penderfyniadau allweddol cyn bo hir. Y cyntaf yw'r angen i ddod i gytundeb gyda'r DCMS a rhanddeiliaid eraill ynghylch natur gwasanaethau rhaglenni yn y dyfodol.

2 Cylch Gwaith

Comisiynwyd yr adolygiad annibynnol hwn o S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth 2004, mewn ymateb i gais gan Awdurdod S4C.

Fe'i cynhaliwyd gan Roger Laughton, Pennaeth Ysgol Cyfryngau Bournemouth, Prifysgol Bournemouth, gyda chymorth Meurig Royles, yr aseswr iaith Gymraeg.

Roedd y cylch gorchwyl fel a ganlyn:

i) Asesu, yn sgîl ailddatgan statws a chylch gwaith S4C yn y Ddeddf Cyfathrebu:

- *Effeithlonrwydd S4C o ran defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol; a'r graddau y gallai ffynonellau ariannu eraill, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd, wneud mwy o gyfraniad ochr yn ochr â'r hyn y mae S4C yn ei gael fel cymorth grant.*
- *Y graddau y mae cynllun strategol diweddaraf S4C yn sail effeithiol i gynllunio ar gyfer y dyfodol.*

ii) Archwilio goblygiadau penodol cynigion y Llywodraeth o ran dyfodol darlledu digidol i S4C.

Rhagwelwyd y byddai'r adolygiad yn cynnwys y broses o ymgynghori â sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn S4C. Hefyd gwahoddwyd yr adolygwyr i ystyried canlyniad yr adolygiad mewnol diweddar a gynhaliwyd gan S4C a thystiolaeth yn deillio ohono.

Nodwyd y bydd Ofcom yn adolygu cyfraniad S4C i fyd darlledu cyhoeddus, yn ystod 2004, fel rhan o'i ofyniad statudol i gynnal adolygiadau ar ecoleg ehangach y byd darlledu cyhoeddus o fewn y DU. Hefyd, bydd y berthynas rhwng S4C a'r BBC yn cael ei hystyried fel rhan o'r Arolwg o Siarter y BBC.

Gofynnwyd i'r adolygwyr gwblhau eu gorchwyl erbyn diwedd mis Mai, 2004.

3 Methodoleg

O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael a natur y cylch gwaith, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y materion strategol a gweithredol allweddol sy'n wynebu S4C yn 2004, eu cefndir a sut y gellid mynd i'r afael â hwy yn sgîl cynigion y Llywodraeth o ran dyfodol darlledu digidol.

Nid yw'r materion sy'n ymwneud â rôl S4C o fewn ecoleg gyffredinol darlledu cyhoeddus y dyfodol yn y DU wedi'u trafod yn fanwl. Ond ni fu'n bosibl eu hanwybyddu yn llwyr. Mae rôl S4C yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i fyd darlledu digidol wedi bod yn newid yn gyflym. Bydd yn newid ymhellach pan newidir i wasanaeth digidol. Mae angen gwneud penderfyniadau yn fuan ynghylch natur gwasanaethau yn y dyfodol.

Un o brif weithgareddau'r adolygiad fu darllen a deall nifer o adroddiadau, yn rhai mewnol ac allanol, ar weithgareddau S4C a gomisiynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr adroddiad pwysicaf yn sicr o blith y rhain yw'r ddogfen adolygiad mewnol ddiweddar sy'n crynhoi'r prif faterion sy'n wynebu S4C ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Cafodd yr adolygwyr hefyd gyfle i siarad yn helaeth ag uwch staff S4C ynghylch gweithrediadau'r sianel.

Ochr yn ochr â hyn, bu'n rhaid deall y strategaethau cenedlaethol presennol ar gyfer trosglwyddo i wasanaeth digidol. Mae Cynllun Gweithredu Digidol y Llywodraeth bellach yn symud tuag at amserlen gadarn ar gyfer trosglwyddo i wasanaeth digidol. Bydd hyn yn cael effaith fawr ar strategaethau pob darlledwr, ac ar S4C yn arbennig.

Arweiniwyd yr ymgynghoriad yng Nghymru, a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, gan Meurig Royles, yr Aseswr Iaith Gymraeg, ac mae wedi cynnwys cyfarfodydd â darlledwyr a chynhyrchwyr eraill, ynghyd â sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn nyfodol darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn anochel ni fu'n bosibl cynnal ymgynghoriad mor eang ag yr oedd yr adolygwyr yn ei ddymuno. Ceir crynodeb o'r ymagwedd a ddilynwyd gan yr ymgynghoriad, y prif faterion a ddeilliodd ohono a rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Mae'r adolygwyr yn ddiolchgar i'r rheini yn S4C ac mewn mannau eraill a roddodd cymaint o'u hamser i gynorthwyo'r broses adolygu hon.

4 S4C yn yr oes cyn-ddigidol

Datblygodd dau adroddiad yn y 1970au y syniad o bedwaredd sianel yng Nghymru, yn darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhellodd Adroddiad Pwyllgor Crawford ym 1974 mai pedwaredd sianel yng Nghymru fyddai'r ateb gorau i ddarparu rhaglenni Cymraeg.

Dadleuodd Adroddiad Crawford, *'Dywedwyd wrthym yn rymus, os yw'r ifanc yn gwylio rhaglenni Saesneg yn bennaf bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i ddirywio...Ystyrir bod yr angen am fwy o raglenni Cymraeg yn fater brys er mwyn rhwystro'r dirywiad presennol rhag mynd heibio'r pwynt di-droi'n ôl'.*

Dair blynedd yn ddiweddarach, ategodd Adroddiad Annan ateb Crawford. Ym 1980, yn dilyn ymgyrch proffil uchel lle bygythiodd gwleidydd blaenllaw o Blaid Cymru lwgu ei hun ac ar ôl i ddirprwyaeth a oedd yn cynnwys Arglwydd Cledwyn, Syr Goronwy Daniel ac Archesgob Cymru ymweld â'r Ysgrifennydd Gwladol, sefydlwyd Sianel Pedwar Cymru (S4C).

O'r dechrau, bu cysylltiad agos rhwng S4C a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig, ac erys y cysylltiad hwnnw.

Darparodd y sianel newydd ddwy awr ar hugain o raglenni Cymraeg oriau brig, gan ehangu buddiannau darlledu cyhoeddus i'r rhai a oedd yn dewis y Gymraeg. Roedd hefyd yn darlledu ystod eang o raglenni yn Saesneg o Channel 4, sef y darlledwr newydd arall ar ddechrau'r wythdegau.

Mae cylch gwaith gwasanaeth analog S4C, fel y'i disgrifir yn Neddf Cyfathrebu 2003, fel ag yr oedd, yn ei hanfod, ym 1982 :

'Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C yw darparu ystod eang o raglennu amrywiol, o safon, o fewn gwasanaeth lle y mae –

(a) cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn cynnwys rhaglenni yn Gymraeg;

(b) mae'r rhaglenni a ddarlledir i'w gwylio rhwng 6.30pm a 10.00pm bob diwrnod o'r wythnos yn cynnwys rhaglenni Cymraeg yn bennaf;

(c) mae'r rhaglenni nad ydynt yn Gymraeg fel arfer yn rhaglenni a ddarlledir, a ddarlledwyd neu a fydd yn cael eu darlledu ar Channel 4.'

Datrysodd y sianel, a aeth ar yr awyr gyntaf ym 1982, dair problem. Cydnabu'r angen diwylliannol a deimlwyd ers tro am sianel Gymraeg o safon. Galluogodd y BBC ac ITV i ddarlledu drwy gyfrwng y Saesneg, gan leihau'r anfodlonrwydd a deimlwyd gan y mwyafrif a oedd yn siarad Saesneg yng Nghymru, nad oeddent wedi gwerthfawrogi'r rheswm dros ddarlledu rhaglenni yn ystod oriau brig mewn iaith nad oeddent yn ei deall. Hefyd, galluogodd y gwylwyr yng Nghymru i wylio rhaglenni yn Saesneg o Channel 4, gan ehangu nifer y bobl a oedd yn gwylio'r sianel newydd yn sylweddol.

I siaradwyr Cymraeg, roedd S4C yn sianel yn eu mamiaith. I siaradwyr Saesneg, roedd S4C yn cynnig mwy o ddewis rhaglennu.

Disgrifiodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Willie Whitelaw, S4C fel *'buddsoddiad mewn cytgord cymdeithasol yng Nghymru'*. Dywedodd S4C mai dyma oedd *'yr ateb darlledu i gyfuniad penodol o faterion gwleidyddol a chymdeithasol'*.

Wrth gwrs roedd yn ateb i fyd darlledu lle'r oedd y sbectrwm yn gyfyngedig. Megis dechrau yr oedd teledu cebl a lloeren. Y deuopoli darlledu, sef y BBC a ffederasiwn ITV, oedd yn rheoli'r ddwy brif ffrwd refeniw – ffi'r drwydded a hysbysebu. Roedd safon y rhaglenni yn uchel, roedd dewis rhwng pedair sianel (pan oedd yn bosibl eu derbyn) ac nid oedd unrhyw gystadleuaeth eto.

Mae rhai o nodweddion hynod statws presennol S4C yn deillio o'r adeg y'i sefydlwyd.

Cyflenwr rhaglenni mwyaf S4C nawr, fel ag erioed, yw BBC Cymru, sy'n brif gystadleuydd gwasanaeth cyhoeddus am wylwyr. O dan Ddeddf Darlledu 1980 roedd yn ofynnol i'r BBC *'ddarparu cyfran o'r rhaglenni teledu yn Gymraeg i'r Awdurdod Cymreig (S4C) a gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni gofynion rhesymol yr Awdurdod'. Yn Neddf Darlledu 1990, addaswyd hwn i ddatgan 'dyletswydd y BBC fydd darparu digon o raglenni teledu yn Gymraeg i'r Awdurdod (am ddim) heb fod yn llai na deg awr o amser darlledu yr wythnos, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni gofynion rhesymol yr Awdurdod.'*

Ar gyfer y mwyafrif o'i chynhyrchiadau, darperir rhaglenni S4C gan gynhyrchwyr annibynnol, gyda llawer ohonynt yn dibynnu ar eu perthynas â'r sianel. S4C yw'r unig farchnad deledu ar gyfer cynhyrchiadau Cymraeg o hyd.

Pennwyd arian y llywodraeth a oedd yn galluogi raglenni o safon gael eu comisiynu yn yr wythdegau ar lefel a bennwyd gan angen S4C i gystadlu â rhwydweithiau daearol eraill. Credwyd y dylai'r unig wasanaeth teledu ar gyfer siaradwyr Cymraeg adlewyrchu'r un safonau a gwerthoedd a oedd yn gysylltiedig â rhaglenni yn Saesneg. I fodloni'r amcan hwn, cysylltodd y fformwla ariannu gwreiddiol grant y sianel â'r lefel o incwm hysbysebion teledu yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal, bu'n bosibl i S4C ddatblygu ffrwd incwm eilaidd drwy werthiannau darlledu yn sgîl gallu'r sianel i gael mynediad i raglenni Channel 4 er mwyn ychwanegu at y gwasanaeth Cymraeg oriau brig. Ategodd hyn refeniw'r sianel o'r cychwyn drwy ehangu ei hapêl i wylwyr Saesneg yng Nghymru.

Gyda 520 o oriau y flwyddyn o raglenni'r BBC yn cael eu darparu am ddim a chyda rhaglenni Channel 4 ar gael i atgyfnerthu'r amserlen mewn meysydd allweddol, roedd yr wythdegau – lle gwelwyd twf llewyrchus mewn hysbysebion teledu – yn flynyddoedd cymharol lwyddiannus i S4C.

Yn ddiwylliannol, mabwysiadodd y sianel sefyllfa gref yn gyflym, sef un a gynhaliwyd ganddi. Datblygodd S4C i fod yn un o blith y prif asiantaethau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

I gwblhau'r cylch daionus yr oedd S4C ynddo ar ddiwedd yr oes analog, tyfodd y cynulleidfaoedd yn raddol. Cynyddodd y gyfran a'r cyrhaeddiad gwylio o ddechrau'r cyfnod darlledu tan ganol y nawdegau. Rhwng 1985 a 1995, cynyddodd cyrhaeddiad S4C o ran gwylwyr a oedd yn siarad Cymraeg o 75% i 85%. Cyrhaeddodd y gyfran o wylwyr a oedd yn siarad Cymraeg ei brig sef tua 20% ym 1996.

5 S4C : 1997-2004

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae S4C wedi wynebu cystadleuaeth gynyddol am wylwyr, amgylchedd cymdeithasol a gwleidyddol newydd yng Nghymru yn dilyn datganoli a thwf arafach yn y grant a gaiff gan y llywodraeth.

Yn ystod pymtheng mlynedd cyntaf S4C, cynyddodd y grant o £25 miliwn i £72 miliwn yn unol â'r cynnydd mewn refeniw teledu masnachol. Yn sgîl Deddf Darlledu 1996, cymerodd cysylltiad newydd â chwyddiant prisiau adwerthu, yn seiliedig ar gyfran y sianel o refeniw hysbysebu (3.2%) ym 1997, le'r cyswllt sefydledig rhwng incwm y sianel a refeniw o hysbysebion teledu. Ers 1998, mae'r grant wedi codi tua 20% i £86 miliwn yn 2004.

Grant y Llywodraeth 1983-2004



Newidiwyd y drefn ariannu o'r flwyddyn ariannol i'r flwyddyn galendr ym 1991
Mae ffigur grant 1991 yn enwol ac ar ffurf pro-rata o'r ddarpariaeth 9 mis

Felly bu ail gyfnod bodolaeth y sianel, sef cyfnod sydd wedi gweld twf aruthrol mewn sianeli newydd a dechrau'r oes ddigidol, yn un lle y mae S4C wedi cael ei hamlygu i ystod o bwysau ariannol a masnachol sy'n fwy dwys nag unrhyw beth a brofwyd o'r blaen.

Dadleua S4C nad yw wedi mwynhau'r 'difidend digidol' a fwynhawyd gan ei phrif gystadleuwyr daearol.

Mae'r BBC wedi elwa ar werthu ei drosglwyddyddion, mae wedi cael rhyddid sylweddol i ddatblygu ei refeniw drwy weithgareddau masnachol ac mae setliad ffi'r drwydded yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn sylweddol uwch na chwyddiant.

Dyrannwyd gostyngiadau i drwyddedigion ITV yn eu taliadau trwydded wrth i gartrefi drosglwyddo i wasanaeth digidol.

Diddymwyd fformwla ariannu Channel 4, sef 'rhwyd achub' na fu mo'i hangen erioed oherwydd llwyddiant masnachol y sianel, ym 1997, gan adael y sianel am gyfnod fel y darlledwr mwyaf proffidiol yng Ngorllewin Ewrop.

Felly, yn gyfnewid am ymrwymiad i hyrwyddo darlledu daearol digidol, mae'r prif ddarlledwyr cyhoeddus wedi gweld eu buddsoddiad mewn rhaglenni newydd a darllediadau ychwanegol yn cael ei ad-dalu gan amgylchedd trwyddedu mwy addfwyn.

Gwnaeth S4C ymrwymiad i'r dyfodol digidol hefyd.

Fel y nododd yn ddiweddar, croesawodd S4C deledu digidol yn frwdfrydig o bedwar safbwynt:

- Fel modd o gynnig dewis ehangach o raglenni ac amseroedd gwylio i wylwyr Cymraeg;
- Fel modd o sicrhau bod gwylwyr yng Nghymru a oedd am dderbyn Channel 4 ac S4C yn gallu gwneud hynny;
- Fel modd o gynyddu cyfranogiad democrataidd drwy ddarlledu o'r Cynulliad Cenedlaethol;
- Drwy fuddsoddiad hirdymor ei hadain fasnachol mewn gweithgaredd plethiad digidol yn y DU.

Penderfynodd y sianel, yn gynnar, i fanteisio i'r eithaf ar y capasiti plethiad a bennwyd o dan Ddeddf 1996 drwy lansio S4C Digidol, sef gwasanaeth a ddarlledwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ym mis Tachwedd 1998. O ganlyniad bu'n bosibl cynnig gwasanaeth Cymraeg y tu allan i oriau brig. Am y tro cyntaf, roedd cartrefi y tu allan i Gymru yn gallu cael mynediad i raglenni Cymraeg S4C, gwasanaeth a werthfawrogwyd yn fawr gan Gymry ar wasgar.

Ym mis Medi 1999, mewn partneriaeth â'r BBC, lansiwyd S4C2, gan ddarparu darllediadau byw a chynhwysfawr o'r Cynulliad Cenedlaethol. Arbrawf a gynhaliwyd yn 2000 oedd y Coleg Digidol, sef partneriaeth rhwng S4C a sefydliadau addysgol yng Nghymru, sydd bellach wedi darfod, ar ddefnyddio'r teledu fel modd o ategu'r agenda dysgu gydol oes genedlaethol.

Mae rhai wedi dadlau y dylai S4C fod wedi aros i sicrhau arian ychwanegol cyn dechrau ar y gwasanaethau digidol. Ond nid oedd hyn yn opsiwn realistig ym 1997. Fel y darlledwyr cyhoeddus eraill, disgwyliwyd i'r sianel hyrwyddo a datblygu'r cam nesaf yn hanes y byd darlledu. Yn wahanol i'r lleill, nid oedd cymhelliant trwyddedu i gefnogi'r broses ehangu.

Mae costau ychwanegol y gwasanaethau digidol newydd wedi bod tua £10 miliwn y flwyddyn i S4C. Bu'r costau darlledu digidol ychwanegol, ar deledu lloeren a theledu daearol, tua £3.5 miliwn y flwyddyn, sy'n gyfwerth â thros 4% o gyllideb rhaglenni S4C. Gwariwyd tua £6 miliwn y flwyddyn ar raglenni a ddarlledwyd ar y gwasanaeth digidol yn unig. Ers 1998 mae S4C wedi cario cost ychwanegol sylweddol oherwydd ei phenderfyniad i lansio gwasanaethau digidol.

Bu'n bosibl i S4C wneud buddsoddiad digidol penodol. Yn 1997, bu'n llwyddiannus yn ei chais am drwydded ar gyfer Plethiad Digidol A. Drwy ei hadain fasnachol, S4C Masnachol, buddsoddodd y sianel yn SDN, sef menter ar y cyd rhwng NTL ac United News and Media.

Yn wahanol i rai arloeswyr digidol eraill, mae SDN wedi llwyddo i oroesi cyfnodau anodd. Mae'n parhau i fod yn landlord plethiad, gan rentu gofod i sianeli ar Blethiad A ac mae bellach yn elwa ar lwyddiant Freeview. Wrth ystyried opsiynau S4C yn y dyfodol, mae ei fuddsoddiad yn SDN a'r capasiti a ddyfarnwyd i'r sianel ym 1996 yn asedau gwerthfawr bellach.

Yng Nghymru, mae S4C yn parhau i gael effaith economaidd ochr yn ochr â'i rôl wrth hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant. Amcangyfrifir y crëir tua 2000 o swyddi naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i weithgareddau S4C, a lleolir llawer ohonynt yn rhanbarthau tlotach

Cymru. Mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer S4C gan Uned Ymchwil Economi Cymru yn 2001 amcangyfrifwyd bod yng Nghymru gyfanswm effaith incwm gwario o ychydig dros £33 miliwn o ganlyniad i weithgareddau S4C.

Mae S4C hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi datblygiad y sylfaen sgiliau ym myd y cyfryngau yng Nghymru, gan weithio gyda'r sefydliad hyfforddi, Cyfle, yn bennaf, mewn partneriaeth â Skillset. Mae gan S4C hanes da parhaus yn y maes hwn.

Gyda dyfodiad y Cynulliad, mae rôl S4C fel sefydliad diwylliannol o fewn Cymru yn newid. Mae'r Cynulliad ei hun wrthi'n datblygu polisïau diwylliannol a dwyieithog cenedlaethol ac mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn arwain y ffordd wrth ddatblygu strategaethau er mwyn sicrhau y bydd Cymru yn datblygu i fod yn gymdeithas ddwyieithog.

Mwy o gystadleuaeth am wylwyr, a'r effaith ar S4C, fu'r drydedd brif thema dros y saith mlynedd diwethaf. Mae cyfrannau a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd wedi dirywio, o ran siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Mae pob darlledwr cyhoeddus wedi profi cwymp, ond ymddengys mai un S4C fu'r mwyaf. O ganlyniad, ymgymerodd y sianel â gwaith ymchwil ansoddol manwl ar arferion gwylio ei chynulleidfa.

Mae'r gwaith ymchwil hwn – a'r hyn y mae'n ei ddatgelu am gyfansoddiad gwylwyr S4C – yn un o nifer o faterion allweddol sy'n wynebu S4C yn 2004 a drafodir yn yr adran nesaf.

6 Materion allweddol yn 2004

Fformwla Ariannu S4C

Os gellid disgrifio'r setliad ariannol yn ystod blynyddoedd cynnar S4C fel un hael, byddai'r grant blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Adwerthu ers 1998 wedi rhoi pwysau ar y sefydliad hyd yn oed pe na fyddai S4C wedi dewis buddsoddi yn y gwasanaeth digidol. Trosglwyddwyd y pwysau ariannu hwn i gyflenwyr S4C, gan gynyddu'r tensiynau naturiol rhwng y prynwr a'r gwerthwr. Mae hefyd yn amlwg, yn sgîl yr ymgynghoriad, bod rhai gwylwyr o'r farn bod gwerthoedd cynhyrchu yn gostwng o ganlyniad i gyllidebau rhaglenni sy'n rhy gyfyngedig.

Mae chwyddiant costau darlledu wedi bod yn uwch na'r Mynegai Prisiau Adwerthu ers sawl blwyddyn. Mae costau hawliau talent a chwaraeon wedi cynyddu'n gyflym iawn mewn marchnad gystadleuol, sy'n tyfu'n gyflym ei hun wrth i refeniw talu am deledu ychwanegu at ffi'r drwydded ac incwm o hysbysebion. Cynyddodd y gost fesul awr i S4C am raglenni a gomisiynwyd o tua £23,000 yr awr ym 1999 i tua £35,000 yr awr yn 2002.

Mae'r terfyn yn amlwg. Cyrhaeddir pwynt lle, er mwyn cynnal gwerthoedd cynhyrchu o safon, y mae'n rhaid gostwng nifer yr oriau o raglenni a gomisiynir neu gynyddu eich cyfran o ailddarllediadau. Os gwnewch y ddau, bydd yn arwain at broblemau yn y dyfodol.

Anogwyd S4C i chwilio am ffynonellau eraill o refeniw a bu'n eithaf llwyddiannus o ran y strategaeth hon. Fodd bynnag, y ffrwd refeniw fwyaf gwerthfawr o blith y rhain yw gwerthiannau hysbysebu, lle y mae'r sianel wedi gweld gostyngiad graddol mewn refeniw dros y pum mlynedd diwethaf. Bydd y dirywiad hwn yn parhau wrth i wylwyr Channel 4 ddiflannu.

A all S4C ddenu digon o arian i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth rhaglenni o safon yn yr oes ddigidol?

Gwylwyr S4C

Mae newidiadau mawr ar droed ymhlith cynulleidfaoedd teledu ledled y DU; disgrifir y rhain yng Ngham Un Adolygiad Darlledu Cyhoeddus OFCOM. Mae cyfrannau a chyrhaeddiad cynulleidfa S4C wedi gostwng gyda dyfodiad teledu aml-sianel. Ceir nifer o resymau am hyn:

1. Mae cyfran pob sianel darlledu cyhoeddus wedi gostwng wrth i gyfanswm nifer y sianeli gynyddu.
2. Mae'r nifer sy'n gwylio'r gwasanaeth digidol, a amcangyfrifir fel 70% ar gyfer unigolion ar hyn o bryd, yn uchel yng Nghymru.
3. Nid oes angen i lawer o'r gwylwyr a oedd yn gwylio S4C er mwyn cael mynediad i gynhyrchiadau Channel 4 wneud hynny bellach.

Mae angen ymdrin â thystiolaeth ymchwil cynulleidfaoedd yn ofalus bob amser, yn enwedig yng Nghymru lle y mae'r niferoedd samplo yn fach. Ond ceir tueddiadau amlwg. Rhwng 1996 a 2004, cwympodd cyfran S4C o'r gynulleidfa Gymraeg yn ystod oriau brig Cymraeg o tua 20% i tua 10%. Ar gyfer pob awr, cwympodd cyfran y sianel o siaradwyr Cymraeg o tua 15% i tua 7%. Cafwyd cwymp o un rhan o dair yn ei chyrhaeddiad wythnosol i bob gwyliwr.

Cyfran y Siaradwyr Cymraeg yn ystod Oriau Cymraeg Brig



Amcangyfrifwyd pwyntiau data ar gyfer 2002 a 2003 drwy ryngosod llinellol

Y tu ôl i'r penawdau, mae'r materion hyd yn oed yn fwy cymhleth.

Unwaith y ceir dewis, gellir deall mater colli gwylwyr ar gyfer rhaglenni Channel 4. Yn y pen draw, dylai hyn alluogi S4C i atgyfnerthu ei strategaeth benodol ei hun ar gyfer y broses rhaglennu. Ond, os bydd gwasanaeth uniaith yn cymryd lle gwasanaeth sy'n darlledu mewn dwy iaith, un o ganlyniadau hyn fydd lefelau gwylio cyffredinol is.

Sut y diffinnir siaradwr Cymraeg?

Ers 1999, bu S4C yn gwneud gwaith ymchwil ansoddol a meintiol helaeth ar ddeall hyn yn well. Dyma'r casgliadau allweddol:

1. Mae'r gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg yn cynnwys unigolion â lefelau gwahanol iawn o allu wrth ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg. Diffinnir siaradwyr Cymraeg fel y rhai sy'n gallu, o leiaf, deall a siarad *rhywfaint* o Gymraeg.
2. Gan ddefnyddio tystiolaeth o Gyfrifiad 2001, ceir tua 582,000 o siaradwyr Cymraeg (21% o boblogaeth Cymru). 508,000 (19%) oedd y ffigurau cymharol yng Nghyfrifiad 1991.
3. Dim ond 275,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n deall, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg *yn dda iawn.*
4. Mae 57% o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn Cartref Gwbl Gymraeg; mae 43% yn byw mewn Cartref Rhannol Gymraeg. Hyd yn oed mewn Cartrefi Cwbl Gymraeg, defnyddir Saesneg fel prif iaith mewn 38% o achosion.

Mae dewis meincnod S4C, sef cyfanswm nifer y gwylwyr sy'n gwylio'r gwasanaeth Cymraeg yn ystod oriau Cymraeg yn ystod wythnos gyfartalog (h.y. ei gyrhaeddiad) wedi aros oddeutu 700,000 dros y tair blynedd diwethaf. Ymddengys fod ei gyrhaeddiad wythnosol i siaradwyr Cymraeg yn ystod oriau Cymraeg wedi sefydlogi oddeutu 230,000 – tua 40% o'r gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.



Sail: Siaradwyr Cymraeg/Rhaglenni Cymraeg, samplau dros 25. Ffynhonell: NOP

Mae'r gynulleidfa darged allweddol o siaradwyr Cymraeg yn dechrau cynyddu ar ôl cyfnod hir o ddirywio. Nodir 41% o bobl ifanc fel siaradwyr Cymraeg bellach, o gymharu â 26% ym 1991. Y broblem i S4C yw'r ffaith nad yw llawer ohonynt yn byw mewn teuluoedd Cymraeg, felly efallai nad ydynt yn gwylio rhaglenni Cymraeg.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae S4C wedi gwneud ymchwil ansoddol helaeth i farn a dewisiadau'r gynulleidfa Gymraeg. Nododd yr ymchwil hwn bum categori eang y gellir dosbarthu siaradwyr Cymraeg iddynt : 'deallusion', 'ymlaciedig', 'traddodiadol', 'datblygiadol', a 'dieithriaid'. Dengys yr ymchwil hon fod gwahaniaethau mawr o ran chwaeth rhwng siaradwyr Cymraeg traddodiadol a'r 'Cymry newydd'.

Mae S4C yn ymwybodol o'r her a wyneba wrth fodloni chwaeth pob carfan. Mae ei thargedau mewnol cyfredol yn cynyddu; cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg o dros 700,000 (y mae'n rhaid iddo, yn ôl diffiniad, gynnwys cyfran sylweddol o siaradwyr di-Gymraeg), a chynulleidfaoedd o dros 100,000 ar gyfer yr 20 o raglenni mwyaf poblogaidd. Ond bydd hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod mwy na phedwar o bob deg o siaradwyr Cymraeg, y ffigur cyfredol, yn gwylio ei gwasanaeth yn ystod oriau Cymraeg brig.

Mae darlledwyr cyhoeddus yn talu mwy o sylw i fynegai gwerthfawrogi, sy'n nodi beth yw gwerth y rhaglenni y mae gwylwyr yn eu gwylio yn eu barn hwy, na darlledwyr masnachol. Gall rhaglen feddu ar gynulleidfa fach a mynegai gwerthfawrogi uchel os yw'r rhaglen ond yn apelio at leiafrif. Ond, os na chaiff rhaglen o'r fath ei gwerthfawrogi'n fawr, mae darlledwyr yn gwybod bod ganddynt broblem. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, gellir cymharu mynegai gwerthfawrogi S4C â rhai sianeli eraill ar draws amrywiaeth o genres. Mewn rhai achosion, fel adloniant teuluol, cerddoriaeth a'r celfyddydau, mae'r mynegai yn sylweddol uwch o gymharu â rhai sianeli eraill.

Y cwestiwn canolog sy'n codi yn sgîl yr ymchwil a wnaed i'r gynulleidfa yw pa fath o wasanaeth a fydd orau i siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Pe byddai'r byd yn fwy ac os na fyddai arian yn broblem, efallai y byddai llwyfan aml-sianel – fel y BBC – yn briodol. Ar y llaw arall, gallai rhannu cynulleidfa sydd eisoes yn fach groesi'r ffin rhwng darlledu a chulhau.

Felly sut y gellir bodloni holl garfanau gwahanol y gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg? A ellir cyfiawnhau rhaglen darlledu cyhoeddus â gwerthoedd cynhyrchu uchel os yw'n cyrraedd llai nag 20,000 o wylwyr?

Natur y Gwasanaeth Rhaglenni

Ers 1998, mae S4C wedi darlledu tri gwasanaeth – S4C, S4C Digidol a S4C2.

Ym mis Hydref 2001, pan wnaeth S4C ei chais diwethaf am fwy o arian, crynhowyd ei chyflawniadau fel a ganlyn :

'Rydym wedi sicrhau'r capasiti mwy o faint sydd ar gael ar lwyfannau digidol i gynnig gwasanaeth ehangach. Rydym bellach yn darlledu 84 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos ar S4C digidol o gymharu â 35 awr ar deledu analog. Mewn partneriaeth â'r BBC, rydym yn darlledu'n fyw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar S4C2. Drwy lansio'r Coleg Digidol rydym hefyd wedi dechrau defnyddio pŵer teledu digidol i ategu dysgu gydol oes.

Bu'n bosibl i ni lansio'r gwasanaeth digidol heb niweidio'r gwasanaeth craidd a ddarperir gennym ar deledu analog oherwydd y rhaglenni oriau brig a ddarlledir gennym ar deledu analog yw rhaglenni craidd S4C digidol hefyd. Yr hyn a gynigir gan y sianel ddigidol yn ychwanegol at hynny yw mwy o ddarllediadau o'n gwyliau cenedlaethol, cyfleoedd ychwanegol i wylio ein rhaglenni mwyaf poblogaidd a mwy o ddefnydd o'n deunydd archif.'

Mae angen rhoi'r honiad nad yw'r gwasanaeth digidol wedi niweidio'r gwasanaeth craidd yng nghyd-destun perfformiad cyffredinol S4C.

Mae S4C yn darlledu tua 28 awr o raglenni Cymraeg newydd yr wythnos ar y gwasanaeth analog a thua 15 awr o raglennu Cymraeg cost isel newydd yr wythnos ar S4C Digidol.

Mae'r rhaglenni digidol yn costio tua £10 miliwn ychwanegol, tua 10% o refeniw'r sianel. Ceir cyferbyniad yn bendant, sy'n amlwg i'r gwylwyr, rhwng gwerthoedd cynhyrchu y rhaglenni a ddarlledir fel rhan o gylch gwaith craidd S4C a rhai'r sianel ddigidol, sydd â chost fesul awr o £3,500.

Ers 2001, bu'n rhaid i S4C wneud nifer o benderfyniadau anodd, yn fwyaf nodedig wrth gau ei huned animeiddio lwyddiannus yn 2003. Daeth yr arbrawf Coleg Digidol i ben hefyd, pan na wireddwyd yr addewid gan bartneriaethau i ariannu'r prosiect. Bu'n rhaid i'r sianel gwtogi fesul dipyn ar gyllidebau rhaglenni a chyllidebau nad ydynt yn ymwneud â rhaglenni.

Yr ymateb cyntaf i'r her o gynnal S4C a S4C2 oedd cynyddu cyfran yr ailddarllediadau yn yr amserlen.

Yn ystod 1999, sef blwyddyn lawn gyntaf y gwasanaeth digidol, darlledodd S4C 81 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos ar gyfartaledd, gan gynnwys oriau'r BBC. Erbyn 2003, roedd yr oriau a ddarlledwyd wedi cynyddu i 85, ond cynyddodd cyfran yr ailddarllediadau hefyd, o 32% ym 1998 i 49% yn 2003. Does dim o'i le ar hyn yn y bôn. Rhoi mwy o gyfleoedd i wylwyr weld rhaglenni wrth i sianeli luosi yw'r strategaeth gywir cyn belled ag y bo gennych y gallu i barhau i wneud rhaglenni newydd.

Fodd bynnag, yn 2004, mae'n deg dweud bod cynnal y gwasanaethau digidol newydd yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth craidd, hyd yn oed os na fernir eu bod yn gyfystyr â 'niwed' eto.

Yr her sylfaenol sy'n wynebu'r Rheolwr Rhaglenni newydd yw rheoli'r newid o wasanaeth dwyieithog

presennol S4C i un sy'n diwallu anghenion gwylwyr ar ôl diffodd y gwasanaeth analog. Bydd effaith lawn colli rhaglenni Channel 4 i'w weld fwyaf ar yr adeg honno.

Siaradwyr Cymraeg fydd y gynulleidfa darged allweddol o hyd, sy'n disgwyl rhaglenni Cymraeg o bob genre â gwerthoedd cynhyrchu mor uchel â rhai darlledwyr cyhoeddus Saesneg.

Mae gan y Rheolwr newydd safbwyntiau clir ynghylch yr angen i sicrhau rhagoriaeth greadigol mewn meysydd penodol – rhaglenni cerddoriaeth, rhaglenni ffeithiol, drama, chwaraeon a rhaglenni i blant. Mae'n bwriadu cynnig rhaglenni 'digwyddiadau', a ategir gan ymgyrch farchnata benodol. Bydd hefyd angen iddi lenwi bwlch amlwg yn y gwasanaeth – diffyg 'botwm coch' rhyngweithiol, gwasanaeth ychwanegol y mae'r to nesaf o wylwyr yn dechrau ei gymryd yn ganiatáol ar sianeli cyhoeddus eraill.

Sut y gall S4C gynnal amrywiaeth ac ansawdd orau yn yr oes ddigidol?

Pa mor fawr yw'r gyllideb? Dwy iaith, fel o'r blaen, neu un? Gwasanaethau ar wahân i siaradwyr Cymraeg 'traddodiadol', siaradwyr Cymraeg 'ymlaciedig' a siaradwyr Cymraeg 'newydd'? Neu wasanaeth craidd?

Natur gwasanaeth rhaglenni'r dyfodol yw'r mater allweddol y mae angen i S4C ei bennu.

Y 'Gofyniad Rhesymol'

Disgrifia S4C ei pherthynas â'r BBC fel partneriaeth greadigol. Mewn rhai ffyrdd, mae'n debycach i berthynas rhwng brawd a chwaer lle y caiff un fwy o laeth y fam na'r llall.

Mae'r deg awr o raglenni a ddarperir gan y BBC bob wythnos yn cynnwys dau o brif raglenni strategaeth rhaglennu S4C, ei gwasanaeth newyddion a'i hopera sebon ddyddiol, *Pobol y Cwm*. Mae eu gwerthoedd cynhyrchu, fel yr holl raglenni a gyflenwir gan BBC Cymru, yn uchel. Noda'r BBC fod ei raglenni yn cwmpasu 30% o oriau S4C ac yn darparu 40% o gynulleidfa analog S4C. Noda'r BBC hefyd fod ganddo annibyniaeth olygyddol dros y cynhyrchiadau y mae'n eu rhoi i'r darlledwr, S4C, sydd â chyfrifoldebau dros yr amserlen a chydymffurfio.

Rhwymedigaeth y BBC, y cytunwyd arni ym 1982, yw darparu 520 o oriau o raglenni'r flwyddyn am ddim i S4C sy'n bodloni *'gofyniad rhesymol'* Awdurdod S4C.

Mae'r berthynas wedi datblygu dros y blynyddoedd. Noda'r BBC ei fod yn caniatáu i S4C gael mynediad i hawliau eraill sy'n ymwneud â rhaglenni'r BBC, ei fod yn darparu cymorth drwy isdeitlo, bod BBC Radio Cymru yn croes-hyrwyddo ar adegau a'i fod yn darparu darllediadau golygyddol o sesiynau llawn Cynulliad Cymru. O ran S4C, noda'r sianel ei bod yn talu costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu *Pobol y Cwm*, sef y rhifyn omnibws wythnosol a deg ar hugain o benodau o'r gyfres honno yn yr haf, i alluogi'r gyfres i redeg drwy'r flwyddyn. Cyfranna S4C hefyd at gostau darlledu gemau rygbi.

Er gwaethaf y tensiynau sy'n gynhenid yn y strwythur, mae'r trefniadau yn gweithio. Ond nid yw'n bartneriaeth deg. Ers 1996, yn arbennig, bu'n bosibl i'r BBC – yng Nghymru fel y tu hwnt iddi – fuddsoddi arian ychwanegol mewn rhaglenni newydd, gan gynnwys amrywiaeth cyffrous o wasanaethau rhyngweithiol. Tra bo BBC Cymru yn gallu darlledu ar y teledu yn Saesneg ac ar y radio ac ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg, darlleda S4C drwy un cyfrwng ac, yn ei gwasanaeth digidol, mewn un iaith.

Yn ystod yr wyth mlynedd rhwng 1995/6 a 2002/03, amcangyfrifa S4C fod y swm a wariwyd gan BBC Cymru ar raglennu Cymraeg wedi aros yn gyson ar y cyfan mewn termau arian parod. Y swm a wariwyd ar gyfartaledd ar raglenni a gynhyrchwyd ar gyfer S4C yn ystod y cyfnod hwn oedd £16.7 miliwn. Fel canran o wariant cyhoeddus cyffredinol y BBC, gwelwyd gostyngiad o 33% yn y swm a wariwyd ar raglenni Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd gwariant cyffredinol y BBC yng Nghymru ar raglenni Saesneg ar draws y BBC a BBC2W o £16.2 miliwn i £29.7 miliwn.

Fel canran o gyfanswm gwariant cyhoeddus y BBC, mae hyn yn gynnydd o 25% rhwng 1995/96 a 2002/03.

O ystyried yr ewyllys da ar y ddwy ochr sy'n bodoli'n bendant, nid ymddengys fod rheswm dros beidio â chynnal adolygiad o gytundeb 1982. Mae'n ddiddorol nodi y lluniwyd Datganiad Bwriad drafft ym 1990 gan BBC Cymru. Ni chytunodd S4C arno ar y pryd.

Nododd y drafft :

'*Os bydd gwasanaeth Cymraeg S4C yn ehangu yn y dyfodol, byddai'r BBC yn barod i gynyddu ei gyfraniadau mewn ymateb i gais gan y Llywodraeth, os yw'r arian priodol ar gael naill ai drwy gynyddu ffi'r drwydded neu drwy ddull arall sy'n dderbyniol i'r BBC.'*

Os yw'r bwriad hwnnw yn parhau i fodoli, ceir lle i drafod yn amlwg, yn enwedig ar adeg Arolygu'r Siarter.

Nododd argymhelliad diweddar y BBC i adolygiad y DCMS :

'*Mae'n amlwg yn hanfodol i'r BBC, gyda'i ymrwymiad hanesyddol a'i gyfrifoldebau hirsefydlog dros ddarlledu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, fod yn rhanddeiliaid allweddol mewn trafodaethau ynghylch dyfodol darlledu drwy'r Gymraeg...Edrychwn ymlaen i ystyried y berthynas rhwng y BBC ac S4C yn fanwl fel rhan o'r arolwg o Siarter y BBC.'*

Mae cytundeb diwygiedig gyda'r BBC ar gyfer yr oes ddigidol yn darged gwerth ei gyflawni ac yn flaenoriaeth i bawb sydd â diddordeb yn ecoleg darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Partneriaethau yng Nghymru Ddatganoledig

Mae'r bartneriaeth greadigol gyda BBC Cymru wedi bodoli ers dros 20 mlynedd. Tasg arall ar gyfer S4C yn 2004 yw cynnal ac, mewn rhai achosion, datblygu cydberthnasau cadarn gyda sefydliadau eraill sy'n ymrwymedig i ddatblygiad economaidd a diwylliannol Cymru.

Mae S4C yn cydnabod yr angen i chwarae ei rhan yn y Fframwaith Polisi Cenedlaethol i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg o fewn Cymru.

Noda'r ddogfen bolisi, IAITH PAWB:

'Mae darlledu yn chwarae rhan bwysig mewn cadarnhau sawl agwedd o bolisi iaith ehangach y Llywodraeth ac yn tanlinellu statws yr iaith...Gall teledu yn enwedig fod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i'r rhai hynny sy'n dysgu'r iaith...Un peth hollbwysig yw bod darlledu yn Gymraeg yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc gyda dawn greadigol yn cael llwyfan i ddatblygu'r ddawn honno ac i adeiladu ar eu gyrfaoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.'

Yn ystod ein hymgynghoriadau, canfuom gydnabyddiaeth eang o rôl bwysig S4C wrth ategu gwaith y Cynulliad. Clywsom hefyd rai pryderon nad oedd S4C mor ymrwymedig i agendâu diwylliannol ac economaidd y Cynulliad ag y gallai fod.

Mae canfod y cydbwysedd cywir rhwng darparu gwasanaeth rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wylwyr, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, a bod yn brif hyrwyddwr yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig wedi bod yn un o dasgau anoddaf S4C a bydd yn parhau felly.

Yr ateb darlledu traddodiadol yw sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar y dinesydd/defnyddiwr, disgrifiad cyfansawdd OFCOM o'r gwyliwr. Mae'r sianel eisoes wedi datgan ei bod yn bwriadu cynyddu ei hymrwymiad i raglennu sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau a marchnata sy'n ategu rhaglenni o'r fath. Mae hon yn strategaeth gadarn i'r darlledwr cyhoeddus cenedlaethol Cymraeg.

Rôl a Chylch Gwaith S4C

Nid oedd ein briff yn cynnwys cwestiynu cylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus S4C, a gadarnhawyd yn Neddf Cyfathrebu 2003.

Diffinnir cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yr Awdurdod i Gymru ar gyfer S4C Digidol yn y Ddeddf fel a ganlyn :

'Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C Digidol yw darparu ystod eang o raglenni amrywiol, o safon mewn gwasanaeth lle y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn cynnwys rhaglenni Cymraeg.'

Efallai mai dim ond y disgrifiad hwn, sy'n cwmpasu popeth, fydd ei angen ar gyfer y dyfodol. Ond mae'n debygol y bydd adolygiad strategol S4C yn amlygu'r angen i adolygu'r cylch gwaith i adlewyrchu'r math o wasanaeth a ystyrir fel un priodol ar gyfer yr oes ddigidol.

Gyda saith o bob deg o wylwyr Cymraeg eisoes yn gwylio teledu digidol, ni ellir oedi gwneud penderfyniadau ynghylch cylch gwaith S4C yn y dyfodol am hir. Mae'r cyfuniad o adolygiad strategol S4C ei hun, adolygiad Darlledu Cyhoeddus OFCOM a'r Arolwg o Siarter y BBC yn gyfleoedd gwych i fynd i'r afael â hyn.

7 Pa mor effeithlon ac effeithiol yw S4C wrth reoli ei chostau?

Pan sefydlwyd S4C, pennwyd ei chyllideb yn ôl strwythurau costau a oedd yn gysylltiedig â'r prif rwydweithiau daearol a'i chylch gwaith.

Diffiniodd Deddf Cyfathrebu 2003 gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C fel *'darpariaeth ystod eang o raglenni amrywiol o safon mewn gwasanaeth lle –*

(a) mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn cynnwys rhaglenni Cymraeg;

(b) mae'r rhaglenni a ddarlledir rhwng 6.30pm a 10.00pm bob diwrnod o'r wythnos yn cynnwys rhaglenni Cymraeg yn bennaf;

(c) mae'r rhaglenni nad ydynt yn rhai Cymraeg fel arfer yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu, sydd wedi eu darlledu neu a fydd yn cael eu darlledu ar Channel 4'.

Mae'r disgrifiad hwn yn adlewyrchu cylch gwaith gwreiddiol S4C. Yn ymarferol, roedd yn golygu un gwasanaeth, a oedd yn cynnwys tua 1800 o oriau'r flwyddyn o raglenni Cymraeg a ddarparwyd yn bennaf gan gynhyrchwyr annibynnol, 520 o oriau o raglenni Cymraeg a ddarparwyd gan BBC Cymru ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dros 4500 awr y flwyddyn o raglenni Saesneg gan Channel 4.

Diffiniwyd cylch gwaith S4C Digidol yn Neddf 2003 fel *'darpariaeth ystod eang o raglenni amrywiol o safon mewn gwasanaeth lle y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn cynnwys rhaglenni Cymraeg.'* Yn unol â pholisi, mae S4C Digidol yn wasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd, sy'n darlledu dros 80 awr yr wythnos.

Crynhoir y pedwar amcan sylfaenol a nodwyd gan Ddeddf 2003 ar gyfer darlledwyr cyhoeddus gan OFCOM fel a ganlyn:

1. **gwerthoedd cymdeithasol:** addysg, hunaniaeth ddiwylliannol, llywio'r broses ddemocrataidd, cefnogi cymdeithas oddefgar a chynhwysol;
2. **ansawdd:** gwerthoedd cynhyrchu, safonau, arloesedd;
3. **amrywiaeth:** a chydbwysedd : trafod amrywiaeth o bynciau ar draws genres, is-genres a fformatau gwahanol bob amser;
4. amrywiaeth : diwallu anghenion cynulleidfaoedd a chymunedau gwahanol/lleiafrifol.

Felly pa mor dda y mae S4C yn cyflawni ei swyddogaethau craidd fel darlledwr cyhoeddus?

Amlinella dogfen adolygu mewnol S4C berfformiad y sianel yn erbyn yr amcanion hyn ym Mhennod Un a Phedwar. Er y bydd angen i'r sianel, fel darlledwyr eraill, ddatblygu amrywiaeth mwy soffistigedig o feini prawf efallai er mwyn graddio ei pherfformiad, ceir tystiolaeth 'prima facie' ei bod yn cyflawni'r pedwar amcan sylfaenol yn hawdd. Ymddengys cryfderau penodol fel hunaniaeth ddiwylliannol, amrywiaeth, safonau a bod yn ymwybodol o gynulleidfaoedd lleiafrifol o fewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Byddai meysydd ar gyfer gwella, wrth ailadrodd yr hyn a ddywedwyd gan rai o'r bobl yr ymgynghorodd yr adolygwyr â hwy, yn bendant yn cynnwys arloesedd a gwerthoedd cynhyrchu. Ceir canfyddiad, nad yw'n cael ei ategu gan ymchwil cynulleidfaoedd o reidrwydd, bod safon wedi dirywio.

O ran effeithlonrwydd S4C, ymhlith y pwyntiau allweddol i'w nodi :

1. Mae S4C bellach yn darlledu dau wasanaeth darlledu cyhoeddus ac un gwasanaeth trwyddedig (S4C2) heb grant ychwanegol a heb newid i'w chylch gwaith craidd;
2. Mae rhaglenni Channel 4 yn ased sy'n lleihau ar S4C a fydd yn diflannu pan drosglwyddir i wasanaeth digidol, os nad cyn hynny;
3. Mae cyfraniad y BBC i weithrediadau S4C fel y'i cytunwyd ym 1982;
4. Mae'r gost o wneud rhaglenni gwreiddiol wedi bod yn uwch na'r Mynegai Prisiau Adwerthu ers sawl blwyddyn.

Y dystiolaeth gyffredinol yw bod S4C yn cyflawni ei chylch gwaith, ac yn gwneud hynny yr un mor effeithiol â'r gorffennol.

A all wneud yn well?

Canolbwyntiodd yr adolygwyr ar ddau faes cyffredinol o ran costau : y rhaglenni, a'r gorbenion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Costau Rhaglenni

Mae S4C wedi llwyddo i reoli costau ei rhaglenni dros y pum mlynedd diwethaf mewn tair ffordd:

1. Drwy gynyddu cyfran yr ailddarllediadau yn yr amserlen;
2. Drwy leihau nifer y rhaglenni Cymraeg newydd a gomisiynir bob wythnos fymryn;
3. Drwy reoli costau ei chyflenwyr annibynnol yn gadarn.

Mae pob sianel yn cydnabod bod angen i wylwyr gael mwy o gyfleoedd i weld rhaglenni gwreiddiol mewn byd aml-sianel. Felly mae'r cynnydd yng nghyfran yr ailddarllediadau – o 15% i 27% yn ystod oriau Cymraeg S4C rhwng 1998 a 2003 – yn arfer da. Cynyddodd cyfran yr ailddarllediadau ar S4C Digidol o 32% i 49% rhwng 1999 a 2003, eto nid yn ffigur ofnadwy o uchel ac yn un sy'n esbonio pam y bu'n bosibl rhedeg y sianel gyhoeddus ychwanegol am tua £10 miliwn – gan gynnwys costau darlledu.

Rhwng 1999 a 2003, bu ychydig o gwymp yn nifer y rhaglenni newydd a ddarlledwyd ar y prif wasanaeth analog, o 29.4 awr yr wythnos i 27.7 awr yr wythnos.

Yn ystod yr un cyfnod, ar gyfartaledd, cafwyd 20 awr ychwanegol yr wythnos o raglenni digidol newydd am gost isel ar S4C Digidol. Ond mae nifer y rhaglenni newydd a ddarlledir ar S4C Digidol yn unig yn gostwng. Yn 2003, darlledwyd 15 awr yr wythnos o raglenni o'r fath, o gymharu â 26 awr ym 1999.

Gan ystyried darllediadau analog a digidol gyda'i gilydd, golyga hyn mai tua 55 awr yr wythnos o raglenni a ddarlledwyd am y tro cyntaf a gafwyd ar gyfartaledd ym 1999 a 43 awr yr wythnos yn 2003. Mae hyn o ganlyniad i'r angen i sicrhau ansawdd rhaglenni yn sgîl chwyddiant costau rhaglenni a thwf araf yn refeniw'r Sianel.

Rhwng 1999 a 2002, cynyddodd cost rhaglen a gomisiynwyd o'r newydd ar S4C o £23000 i £35000 yr awr ar gyfartaledd. Drwy reoli'r stoc o raglenni yn ofalus, fel y disgrifiwyd uchod, dim ond cynnydd o £15,200 i £17,189 a fu yn y gost fesul awr darlledu.

Amcangyfrifa S4C fod ei chyllidebau wedi cwympo'n is na chyllidebau'r BBC o gymharu â'r gorffennol. Ym 1995, roedd cost rhaglenni S4C fesul awr yn y chwe phrif genre 41% o gost y BBC. Yn 2002, roedd cost rhaglenni S4C fesul awr yn yr un chwe genre 33% o gost y BBC.

Y trydydd maes y mae S4C wedi llwyddo i reoli costau ynddo yw rhoi mwy o bwysau ar ei chyflenwyr cynhyrchu annibynnol. Nododd Adroddiad Graham ym 1999 fod *'S4C yn gynhyrchydd cost isel, sy'n defnyddio grŵp o gwmnïau nad ydynt (ar y cyfan) yn cynhyrchu i eraill.'* Mae hyn wedi arwain at densiynau rhwng S4C, y darlledwr-gomisiynydd, a'r sector annibynnol. Y llynedd, comisiynodd Prif Weithredwr S4C adroddiad allanol ar berthynas y sianel â''r sector annibynnol. O ganlyniad, cynhelir mwy o drafodaethau rheolaidd gyda'r sector hwnnw.

Mae'r darlun cyffredinol yn cyflwyno sianel sydd wedi bod yn ceisio bod yn ddarbodus drwy dorri costau am nifer o flynyddoedd. O ystyried mai S4C yw unig ffynhonnell rhaglenni Cymraeg, ychydig o gyfleoedd sydd ar gael i ychwanegu at y gwasanaeth rhaglenni drwy brynu rhaglenni. Mae arbrofion wedi eu cynnal gydag isdeitlo a throsleisio rhaglenni o ddiwylliannau teledu eraill, ond mae gwylwyr Cymraeg dwyieithog wedi dangos nad ydynt yn barod i dderbyn y tactegau hyn.

Os na fydd S4C yn newid ei pholisi o gyflwyno'i hun fel darlledwr Cymraeg neu'n lleihau ei horiau darlledu, mae'n anodd gweld beth arall y gellir ei wneud i leihau costau'r gwasanaeth rhaglenni heb ddiddymu ei werthoedd darlledu cyhoeddus.

Gorbenion

Bu gan S4C darged hirsefydlog o sicrhau nad yw ei gorbenion, gan gynnwys marchnata ac ymchwil cynulleidfaoedd, yn cynrychioli mwy na 10% o'i holl wariant ar raglenni. Cyflawnwyd hyn ganddi ers 1999.

Os cynhwysir marchnata, costau swyddfa'r wasg ac ymchwil cynulleidfaoedd o fewn costau'r rhaglenni, yn unol ag arfer cyfredol y diwydiant, mae lefel gyfredol S4C o ran gorbenion yn cwympo i 5.2% o gyfanswm y gwariant. 15% yw'r ffigur cymharol ar gyfer y BBC. Os gwelir y BBC fel achos arbennig, mae costau cyffredinol S4C yn parhau i fod yn is na Channel 4 ac RTE, lle'r canrannau yw 6.1% a 7.2% yn y drefn honno.

Prif elfen sylfaen costau S4C, fel sy'n wir ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau creadigol, yw ei chyllideb staffio. Mae cyflogau S4C yn is na'r hyn sy'n arferol ar gyfer y diwydiant yn y rhan fwyaf o ardaloedd, sy'n adlewyrchu costau is byw yng Nghaerdydd a chyflogau is yn y byd darlledu y tu allan i Lundain.

Mae nifer y staff wedi cynyddu o 127 i 205 ers 1995, o ganlyniad i'r datblygiadau digidol a phenderfyniadau, yn dilyn adolygiadau mewnol, i ddarparu rhai o'r swyddogaethau, fel arlwyo, yn fewnol. Ym mhob achos, cred S4C y cymerwyd yr ymagwedd fwyaf cost-effeithiol ac effeithlon.

Edrychodd yr adolygwyr yn fanylach ar dair o ganolfannau costau S4C – peirianneg a darlledu, marchnata ac isdeitlo. Fe'u disgrifir yn Atodiad 2. Ym mhob achos, gweithreda S4C yn effeithlon.

Mae cynllun blynyddol S4C yn cynnwys darparu ar gyfer adolygiadau rheolaidd o adrannau allweddol. Mae hyn yn arfer da, nid dim ond i weld lle y gellir cwtogi costau ond hefyd i bennu pa un a yw'r hyn a gaiff ei wario heddiw yn adlewyrchu'r nodau strategol gwreiddiol o hyd. Er na all S4C efelychu strwythurau a lefelau costau sianel gebl neu loeren, byddai'n ddefnyddiol hefyd feincnodi ei harferion yn erbyn sianeli cost isel yn ogystal â sianeli cyhoeddus eraill.

Crynodeb

Mae S4C wedi datblygu i fod yn ddarlledwr mwy effeithlon ers 1997. Ar lai o gyllideb, mae wedi lansio gwasanaethau ychwanegol sylweddol heb leihau ei rwymedigaethau cyhoeddus.

O gymharu â darlledwyr cyhoeddus eraill ac o gymharu â pherfformiad y Sianel ei hun 10 mlynedd yn ôl, mae'r costau rhaglenni a'r gorbenion yn cynrychioli gwerth da am arian.

Argymhellir y dylai S4C barhau i feincnodi ei chostau rhaglenni a'i gorbenion yn erbyn darlledwyr eraill ac adolygu meysydd gweithredu penodol yn rheolaidd.

8 A all S4C gynyddu ei refeniw o ffynonellau heblaw grant y DCMS?

Ar hyn o bryd mae tair prif ffrwd o refeniw masnachol ar gael i S4C drwy weithgareddau ei his-gwmni masnachol, S4C Masnachol.

1. Gwerthiannau yn ystod oriau darlledu a nawdd;
2. Gwerthiannau rhaglenni, cyn-werthiannau a chydgynhyrchu;
3. Gweithrediadau plethiad, drwy SDN.

Yn ogystal, mae S4C wedi archwilio cyfleoedd masnachol eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel rheoli sianel.

Gwerthiannau yn ystod oriau darlledu a nawdd

Yn ystod y 1990au, cynyddodd incwm S4C o ganlyniad i werthiannau masnachol yn ystod oriau darlledu, gan gyrraedd uchafswm o £10.2 miliwn yn 2000.

Fodd bynnag, gyda'r cwymp yn nifer gwylwyr S4C a'r cyfle i wylwyr di-Gymraeg wylio Channel 4 yng Nghymru yn ddigidol am y tro cyntaf, bu dirywiad sylweddol ers 2000. Amcangyfrifir mai oddeutu £7 miliwn yw'r incwm ar gyfer 2004.

Daw trefniadau S4C gyda'i dŷ gwerthiannau presennol i ben yn 2005. Ar hyn o bryd nid oes neb amlwg i gymryd ei le.

Gan edrych ymlaen, wrth i'r diwrnod pan ddiffoddir y gwasanaeth analog agosáu, mae refeniw'r sianel o ganlyniad i werthiannau hysbysebu yn debygol o barhau i gwympo. Mae mwyafrif yr incwm gwerthiannau cyfredol yn gysylltiedig â gwylio rhaglenni Channel 4. Mae'r gynulleidfa Gymraeg yn rhy fach i fod yn arbennig o ddeniadol i hysbysebwyr.

Mae S4C Masnachol wedi bod yn weithgar wrth greu incwm drwy nawdd – £1.2 miliwn ers 2000.

Gan fod yn fwy optimistaidd, anodd yw gweld y bydd gwerthiannau a nawdd yn ystod oriau darlledu gyda'i gilydd yn creu mwy na £5 miliwn yn 2006. Erbyn 2009, byddai'n realistig cynllunio ar gyfer canlyniad sylweddol is.

Gwerthiannau Rhaglenni, Cyn-werthiannau a Chydgynhyrchu

Mae S4C wedi bod yn eithaf adnabyddus yn rhyngwladol ers sawl blwyddyn.

Ers blynyddoedd mae S4C Rhyngwladol wedi mynychu marchnadoedd teledu'r byd lle y mae wedi sefydlu enw da fel dosbarthwr 'niche' cymwys. Ceir llawer o fanteision yn sgîl y ffaith bod S4C yn berchen ar adain ddosbarthu mewnol, ond mae system gweithredu gwerthiannau rhyngwladol S4C Rhyngwladol yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i wneud elw sylweddol i'w rhieni.

Ceir factor newydd bellach, wrth i S4C dderbyn argymhellion yr Adolygiad o Ddarpariaeth Rhaglenni sy'n rhoi mwy o bŵer i gynhyrchwyr annibynnol, y mae eu rhaglenni yn creu'r rhan fwyaf o'r catalog,

yng nghyd-destun eu cydberthnasau masnachol â'r sianel yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd cwmnïau annibynnol mwy o faint yn dymuno mwy o reolaeth dros eu hincwm dosbarthu yn y blynyddoedd i ddod, a all gael effaith andwyol ar allu S4C i adnewyddu ei chatalog.

Mae angen i'r sianel ailystyried pa un a yw bod yn berchen ar dŷ gwerthiannau rhaglenni o unrhyw werth. Fodd bynnag, byddai unrhyw arbedion a wnaed drwy benodi ffynonellau allanol i ddosbarthu rhaglenni yn fach, o ystyried yr angen am strwythur rheoli hawliau i ategu gweithrediadau cyn-werthiannau a chydgynhyrchu S4C.

Argymhellir y dylid adolygu gweithrediadau dosbarthu rhaglenni S4C yn sgîl yr Adolygiad o Ddarpariaeth Rhaglenni.

Amcangyfrifa S4C Rhyngwladol ei bod, ar hyn o bryd, yn creu tua £2 filiwn y flwyddyn drwy gyllid cydgynhyrchu ar gyfer rhaglenni i'w darlledu ar S4C. Buddsoddiad mewnol yw hwn mewn cynhyrchiadau Cymreig a gwerth ychwanegol i wylwyr yng Nghymru.

Cydnabyddir gwerth S4C fel cydgynhyrchydd ledled y byd ac, fel y noda S4C yn ei hadolygiad mewnol, 'yn cynrychioli ffenestr siop bwysig i Gymru.'

Mae angen i gydgynhyrchu barhau i fod yn rhan allweddol o strategaeth rhaglenni S4C. Mae gan S4C enw da iawn yn y maes hwn ac mae llawer o bartneriaid am weithio gyda'r sianel eto.

Mewn blynyddoedd cynharach, roedd S4C yn gallu buddsoddi mewn ffilmiau Cymraeg, megis *Solomon a Gaenor* a enwebwyd am Oscar. Dangoswyd y ffilm nodwedd a animeiddiwyd o fywyd Iesu, *Gŵr y Gwyrthiau (The Miracle Maker)*, yn ystod oriau brig ar deledu rhwydwaith yn America ac fe'i gwerthwyd i 35 o wledydd. Mae S4C yn parhau i obeithio y gall gymryd rhan mewn prosiectau mawr er mwyn dod â llewyrch i'r sianel a sicrhau bod digwyddiadau wrth wraidd yr amserlen frig i'w gwylwyr. Ond, fel y mae darlledwyr wedi darganfod eisoes, mae buddsoddi mewn ffilmiau Prydeinig yn fwy o benderfyniad diwylliannol yn hytrach na phenderfyniad masnachol.

SDN a Chapasiti Digidol S4C

O ganlyniad i Ddeddf Darlledu 1996, rhoddwyd capasiti plethiad i S4C yng Nghymru. Hefyd, defnyddiodd y pwerau masnachol uwch a gynhwysir yn y Ddeddf i gymryd cyfran gwerth traean o SDN Limited, a gafodd drwydded ddigidol ym 1998. Ei phartneriaid yw NTL ac United Business Media. Mae'r capasiti a roddwyd iddi a'r buddsoddiad yn SDN yn ddwy ased werthfawr i S4C.

Rheolir y buddsoddiad yn SDN drwy S4C Masnachol. Bu'r blynyddoedd cynnar yn anodd, a bu methiant ITV Digital, yr oedd gan SDN fenter ar y cyd â hwy i gyflenwi sianeli ffilmiau, yn fygythiad i'r fenter. Ond mae lansiad llwyddiannus Freeview wedi galluogi SDN i renti ei gapasiti cyfan.

O ganlyniad bydd SDN yn dechrau ad-dalu'r benthyciadau a wnaed gan ei berchenogion yn 2004, ac mae'n disgwyl gwneud elw erbyn diwedd ei drwydded ddarlledu 12 mlynedd. Cynrychiola hyn ffrwd gyson o refeniw i S4C.

Gan edrych ymlaen, mae gan S4C bedwar opsiwn cyffredinol :

1. Cadw'r capasiti a bennwyd, a chynnal y buddsoddiad yn SDN.
2. Prydlesu'r capasiti a bennwyd, a gwerthu'r buddsoddiad yn SDN.

3. Cadw'r capasiti a bennwyd, a gwerthu'r buddsoddiad yn SDN.
4. Prydlesu'r capasiti a bennwyd, a chynnal y buddsoddiad yn SDN.

Mae'r penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylid ei wneud yn benderfyniadau masnachol i S4C. Mae amseriad penderfyniadau yn her ac yn gyfle.

Perthynas y BBC

Mae'r BBC yn cyflenwi un rhan o dair o raglenni gwreiddiol S4C, gan gynnwys ei hopera sebon ddyddiol a'r gwasanaeth newyddion, tua 520 o oriau'r flwyddyn.

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae archwiliad o'r berthynas rhwng S4C a BBC Cymru yn hir-ddisgwyliedig. Mae'r gyfran o ffi'r drwydded, a gynrychiolir gan gyfraniad y BBC i'w bartneriaeth gyda S4C, wedi lleihau ers 1982 ac, yn arbennig, ers 1997.

Ffordd ymlaen fyddai i S4C a BBC Cymru gytuno ar amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau wedi'u costio bob blwyddyn y byddai'r BBC yn eu darparu i S4C, a fyddai'n gyfwerth â'r gyfran o ffi'r drwydded a gynrychiolir gan y rhaglenni a'r gwasanaethau a ddarparwyd gan BBC Cymru ar gyfer S4C yn 1997.

Gallai'r meysydd i'w trafod gynnwys :

1. Cyflenwi rhaglenni ychwanegol;
2. Rhannu plethiad yng Nghymru;
3. Y berthynas rhwng S4C a BBC Radio Cymru;
4. Darlledu;
5. Gwasanaethau rhyngweithiol;
6. Mynediad i raglenni Cymraeg o'r archif;
7. Hawliau chwaraeon.

Os gellir dwyn perswâd ar y BBC ei bod er budd ei strategaethau rhaglenni cyffredinol i ddatblygu partneriaeth agosach ac os gellir dwyn perswâd ar S4C ynghylch gwerth perthynas agosach gyda'i brawd mawr, bydd gwylwyr Cymraeg yn elwach.

Argymhellir y dylid gwahodd y BBC a S4C, fel rhan o'r Arolwg o'r Siarter, i gytuno ar fformwla briodol ar gyfer y rhaglenni a'r gwasanaethau eraill y mae'r BBC yn eu cyflenwi i S4C, a ariennir gan ffi'r drwydded, sy'n diwallu anghenion presennol darlledu cyhoeddus drwy'r Gymraeg.

Partneriaethau Strategol yng Nghymru

Roedd rhai o'r bobl yr ymgynghorodd yr adolygwyr â hwy o'r farn y gallai S4C chwarae rhan fwy gweithgar wrth ddatblygu agenda ddiwylliannol Cynulliad Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae hefyd yn werth nodi bod cymhelliant ariannol bellach ar gael i gynhyrchwyr annibynnol nad yw ar gael i S4C. Cyfeiriodd Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yr adolygwyr at brosiect band eang sydd

â thri ariannwr sef y WDA, Five a chynhyrchydd annibynnol o Gymru. Disgwylir y bydd y strategaeth Diwydiannau Creadigol arfaethedig yng Nghymru yn cynnwys cymorth busnes cyffredinol a phwrpasol i gynhyrchwyr cynnwys digidol annibynnol.

Efallai y bydd cyfleoedd eraill o'r fath yn galluogi S4C i gefnogi prosiectau lle y mae'r sianel yn gyfrifol am weithredu fel hysbysfwrdd fideo ar gyfer menter cynnwys digidol ar y cyd mewn amrywiaeth o gyfryngau. Pe byddai Cronfa Ffilmiau Cymru wedi'i lansio, byddai S4C wedi bod yn bartner cydgynhyrchu naturiol yng Nghymru.

Y prawf, fel ag erioed, fydd pa un a yw prosiect unigol yn gwneud synnwyr. Dangosodd S4C ei pharodrwydd i fuddsoddi mewn partneriaeth o'r fath pan lansiwyd y Coleg Digidol yn 2000. Yn ddoeth, diddymodd y sianel yr arbrawf pan oedd yn glir nad oedd digon o gymorth partneriaid ar gael. Ond roedd S4C yn iawn i geisio gwneud i brosiect addysgol uchelgeisiol weithio.

Mae S4C yn parhau i chwarae rhan greadigol ganolog wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a bydd nifer o gyfleoedd yn y dyfodol i sefydlu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol neu economaidd Cymreig eraill mewn prosiectau penodol. Fel y nododd S4C yn ei hadolygiad mewnol :

'Bydd angen i S4C roi rhagor o bwyslais ar ddatblygu partneriaethau a chynyddu'r nifer o fudiadau y buasai'n fuddiol iddi gydweithredu â hwy fel partner darlledu.'

Argymhellir y dylai S4C geisio chwarae rhan fwy cyflawn wrth ddatblygu'r agendâu diwylliannol ac economaidd cenedlaethol yng Nghymru.

Arall

Mae S4C Masnachol wedi ystyried amrywiaeth o gyfleoedd masnachol gwahanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae S4C yn ceisio ehangu ei phwerau masnachol yn unol â darpariaethau Adran 206 Deddf Cyfathrebu 2003 i hwyluso hyn.

Er enghraifft, ar hyn o bryd ceisir datblygu'r broses o reoli darlledu sianeli trydydd parti lle y mae gan S4C gost suddedig, a grynhowyd yn gynharach. Ond bu'n anodd cystadlu o ran prisiau â darparwyr mawr sydd â darpariaeth arbenigol a mwy o faint.

Hefyd cefnogodd S4C Masnachol ddatblygiad cynnar sianeli newydd fel The Nursery Channel. Ond, yn yr achos hwn ac eraill, tynnodd yn ôl pan na fu'n bosibl bodloni ei meini prawf buddsoddi.

9 Y cynllun Corfforaethol cyfredol: sylfaen ar gyfer cynlludio dyfodol S4C?

Ar hyn o bryd, gweithreda S4C ar sail cynllun corfforaethol tair blynedd, sy'n cwmpasu 2004 i 2006.

Y nod craidd yw 'darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr o safon sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru'.

Nodir pedwar nod ategol :

1. *Darparu ystod eang o raglenni bob dydd sydd, yn eu cyfanrwydd, yn berthnasol ac yn ddeniadol i bob oedran a diddordeb ym mhob rhan o Gymru.*
2. *Cyfrannu at ansawdd bywyd drwy ychwanegu at ddarpariaeth gwasanaethau addysg, gwybodaeth ac adloniant cyhoeddus, i'r graddau ei fod yn gyson â chyflawni ein nod craidd.*
3. *Sicrhau bod gwasanaethau craidd ac ychwanegol o'r safon uchaf bosibl ar gael yn hawdd ac am ddim i'r gynulleidfa ehangaf bosibl.*
4. *Darparu rhagoriaeth a gwerth gorau o fewn S4C a chydweithio ag eraill i hyrwyddo rhagoriaeth greadigol a datblygu a chryfhau'r diwydiant cyfathrebu yng Nghymru*

Ategir pob nod gan nifer o amcanion ac, ar gyfer 2004, nifer o dargedau penodol. Bydd S4C yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i 39 o dargedau yn 2004.

Mae'r cynllun corfforaethol, mewn geiriau eraill, yn dilyn ymagwedd 'gadarn' tuag at y broses o reoli'r sianel o ddydd i ddydd, gan dybio adnoddau sy'n bodoli eisoes a chyllid cyfredol. Fe'i hategir gan gyfres o gynlluniau ac amcanion adrannol unigol, y maent oll yn anelu at gyflawni nodau, amcanion a thargedau'r cynllun ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fesuradwy.

Cynhwysa adolygiad mewnol S4C, 'Gwasanaeth Teledu Cymraeg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif' (a grynhoir yn Atodiad 3) ddatganiad clir o ddyheadau'r sianel a chyflwyniad i'r ddadl, y mae'r adolygiad hwn yn cyfrannu ati, a fydd yn arwain at gynllun strategol y gall y DCMS a S4C gytuno arno.

Mae'n gywir dweud y dylid datblygu'r cynllun strategol newydd hwn ar ôl cynnal y ddadl sy'n deillio o'r adolygiad mewnol. Mae hefyd yn werth nodi y bydd angen ystyried tair proses sy'n allanol i S4C hefyd – Cynllun Gweithredu Digidol y Llywodraeth, yr Arolwg o Siarter y BBC ac Adolygiad Darlledu Cyhoeddus OFCOM – er mwyn i unrhyw gynllun fod yn realistig.

10 Gobygiadau cynigion y llywodraeth ar gyfer dyfodol darlledu digidol i S4C

Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei bod yn ymrwymedig i'r broses o drosglwyddo i wasanaeth digidol yn y degawd nesaf. Mae dros 50% o gartrefi ym Mhrydain eisoes yn gwylio teledu digidol. Yng Nghymru mae gan dros 70% o unigolion fynediad i wasanaethau digidol. Yn gyffredinol, ers ei lansio ym 1998, mae teledu digidol wedi tyfu'n gyflymach na bron unrhyw nwydd electronig neu wasanaeth arall yn y cartref, a chydnabyddir y DU fel un o arweinyddion y byd ym maes mabwysiadu teledu digidol. Gall defnyddwyr ddewis o blith teledu lloeren digidol, teledu cebl digidol neu wasanaethau daearol digidol.

Lluniwyd adroddiad, yn crynhoi dadansoddiad cost a budd y trosglwyddiad i wasanaeth digidol, ar gyfer yr Adran Masnach a Diwydiant a'r DCMS y llynedd. Awgrymodd fod yna fuddiannau mesuradwy o ran NPV o tua £1.5 i £2 biliwn, yn dibynnu ar yr amseriad. Pwysleisiodd fod diffodd darllediadau analog yn llai gwastraffus na chynnal systemau darlledu deuol dros gyfnod hir.

Yn bennaf oll, dadleuodd y bydd pobl fel defnyddwyr a dinasyddion yn cael mwy o ddewis, safon uwch, ystod ehangach o wasanaethau a mynediad i'r holl wasanaethau hynny yn y byd digidol.

Bydd y broses o ddiffodd y gwasanaeth analog yn un a gyflwynir gam wrth gam, dros bedair blynedd efallai. Bydd yn digwydd o ranbarth i ranbarth ledled Prydain. Ar hyn o bryd caiff cynlluniau manwl eu paratoi sy'n ystyried ystod eang o faterion sy'n codi yn sgîl proses o'r fath. Mae Cynllun Gweithredu Digidol cynhwysfawr yn cael ei roi ar waith *'er mwyn sicrhau y bodlonir y meini prawf ar gyfer trosglwyddiad i wasanaeth digidol fel y gall Gweinidogion, os dymunant, benderfynu parhau â'r broses o ddiffodd y gwasanaeth analog yn llawn drwy orchymyn diffodd darllediadau daearol analog erbyn 2010.'*

Ym 1999, pennodd y Llywodraeth ddau amod ar gyfer y trosglwyddo. Yn gyntaf, dylai cartrefi sy'n gallu derbyn y prif sianeli cyhoeddus ar ffurf analog ar hyn o bryd eu derbyn ar ffurf ddigidol. Yn ail, dylai teledu digidol fod yn fforddiadwy ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi, sef amcangyfrif o 95%.

Yn ôl amcangyfrif presennol OFCOM ni chaiff yr ail darged hwn ei gyflawni yn 2010 heb ymrwymiad cadarn i drosglwyddo i wasanaeth digidol a chydweithredu er mwyn goresgyn y rhwystrau i weithredu'r ymrwymiad hwnnw.

Ceir rhai materion sy'n benodol i S4C yng Nghymru. Er bod S4C – fel darlledwyr eraill – yn disgwyl buddiannau o ran costau ar ôl diffodd y gwasanaeth analog, nid oes sicrwydd y bydd hyn yn digwydd ar gyfer Plethiad A, y caiff gwasanaethau S4C eu darlledu ohono. Mae'r costau ychwanegol fesul gwyliwr o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus llawn i wylwyr yng Nghymru yn debygol o fod yn uchel oherwydd y bryniau a'r boblogaeth wasgaredig. Ceir achos cryf dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus digidol S4C ar yr un plethiad ag un o'r darlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gyflwyno'r posibilrwydd na fydd angen i Blethiad A ddarparu'r darllediadau ar gyfer darlledwr cyhoeddus.

Bydd angen gwneud y penderfyniad hwn yn fuan.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai S4C yn parhau i feddu ar ei hasedau digidol presennol. Mae gan S4C rwymedigaethau cytundebol i SDN yn ogystal â'r capasiti a roddwyd iddi. Byddai'n dymuno parhau i elwa ar yr asedau hynny.

Felly, er gwaethaf ymrwymiad S4C i amcanion y Llywodraeth, a ddisgrifiwyd yn Adran 5, mae ymateb y sianel i'r Cynllun Gweithredu Digidol wedi bod yn bwyllog:

'Ni all S4C...ddweud mwy na'i bod yn cefnogi'r egwyddor y dylid dod o hyd i le i S4C a S4C2 yng Nghymru, ar blethiad gwasanaeth cyhoeddus sy'n cynnig darllediadau sy'n gyfwerth o leiaf â'r hyn sydd ar gael i'r darlledwyr cyhoeddus eraill ar delerau nad ydynt yn rhoi'r gwasanaeth rhaglenni y mae'n ei ddarparu o dan anfantais neu sy'n tanseilio'r trefniadau masnachol hynny y llwyddodd i ategu'r adnoddau sydd ar gael iddi drwyddynt.'

Mae pa un a fyddai lle i ddau wasanaeth S4C ar blethiad cyhoeddus yn gwestiwn arall a fydd yn codi cyn bo hir.

Wrth i Gynllun Gweithredu Digidol y Llywodraeth ddatblygu, gyda chynllun peilot arfaethedig yng Nghymru ar gyfer diwedd 2004, ni ellir gohirio cynnig atebion am hir.

Argymhellir y dylid darlledu gwasanaeth(au) digidol S4C ar yr un plethiad â darlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.

11 Adolygiad S4C: gwasanaeth teledu cymraeg sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif?

Ym mis Mawrth 2004, cyhoeddodd S4C ganlyniad ei phroses holi ac adolygu mewnol ei hun. Y cwestiwn allweddol yr aeth yr adolygiad i'r afael ag ef oedd pa fath o wasanaeth teledu Cymraeg sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif, ar ôl diffodd y gwasanaeth analog. Nodwyd rhan helaeth o'r dystiolaeth yn yr adolygiad mewnol yn yr adolygiad allanol hwn.

Ceir crynodeb S4C o'i hadolygiad ei hun yn Atodiad 3. Mae'r adolygiad ei hun yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r materion sy'n wynebu'r sianel. Yn y casgliad, noda'r adolygiad y materion a fydd yn hanfodol, ym marn S4C, i lwyddiant parhaol y sianel.

Y rhain yw:

1. Cyflwyniad rhaglenni daearol digidol ar gyfer S4C i'r un graddau â sianeli cyhoeddus eraill, heb iddo gael effaith negyddol ar gyllideb y rhaglen;
2. Lefel briodol o amlygrwydd ar gyfer gwasanaethau S4C, gan gynnwys maes rhaglenni plant, ar bob Dewislen Rhaglenni Electronig a ddefnyddir yng Nghymru;
3. Adnoddau ychwanegol i wella ansawdd rhaglenni;
4. Adnoddau ychwanegol er mwyn ehangu amrywiaeth y gwasanaeth teledu Cymraeg;
5. Adnoddau ychwanegol er mwyn galluogi datblygiad gwasanaethau rhyngweithiol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd eraill a gyflwynir gan dechnoleg newydd, gan gynnwys band eang;
6. Creu cydbartneriaethau gweithio effeithiol a fydd yn gallu gweithredu mewn ffordd realistig a chyson er mwyn creu gwerth ychwanegol sylweddol drwy weithgareddau S4C.

Er na chaiff y materion hyn eu blaenoriaethu, mae'r adolygwyr yn deall, yn gyffredinol, mai'r drefn a restrir uchod yw'r drefn flaenoriaeth. Felly, dylai mynd i'r afael â'r materion yn y 'rhestr siopa' hon alluogi'r sianel i gwblhau ei chynllun strategol ar gyfer yr oes ddigidol.

Fodd bynnag, nid eir i'r afael ag un cwestiwn allweddol.

Beth fydd natur rhaglenni S4C ar ôl trosglwyddo i wasanaeth digidol?

Cred yr adolygwyr y byddai S4C yn anghywir i gredu mai gwasanaeth Cymraeg aml-sianel yw'r ymateb cywir i'r oes ddigidol, o angenrhaid. Mae rhannu'r gwylwyr sy'n dymuno gwasanaeth Cymraeg yn peri risg uchel o ddarlledu i gynulleidfaoedd sy'n rhy fach i gyfiawnhau buddsoddi mewn gwasanaeth rhaglenni o safon yn Gymraeg, sef elfen graidd y cylch gwaith.

Mae hefyd yn afrealistig i gredu y gall S4C ddisgwyl unrhyw gynnydd sylweddol yn ei grant hirdymor gan y DCMS er mwyn cynnal ail wasanaeth cynaliadwy. Mae refeniw nad yw'n dod o'r DCMS yn lleihau. Efallai y bydd arbedion pellach o ran costau ac incwm o SDN yn creu arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni yn y tymor canolig, ond nid yr hyn sydd ei angen ar gyfer ehangu.

Felly cred yr adolygwyr y bydd angen darparu gwasanaeth Cymraeg o safon drwy gyfrwng un sianel cyhoeddus yn bennaf, gyda mynediad i gapasiti digidol digonol er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei rannu ar adegau pan fo angen rhoi ystyriaeth arbennig i ddigwyddiad darlledu mawr.

Byddai er budd hirdymor S4C i ddarlledu'r sianel honno o blethiad y BBC, gan ei galluogi i gyflawni'r amcan cyntaf o blith y chwech a nodir uchod. Mantais arall fyddai'r cyfle yn sgîl hynny i S4C wireddu gwerth masnachol y capasiti a roddwyd iddi a'r buddsoddiad yn SDN.

Gallai sianel o'r fath gynnwys rhannau wedi'u brandio yn targedu adrannau penodol o'r gynulleidfa, fel plant o dan 11 oed. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n gywir i'r gwasanaethau hyn, fel *Planed Plant*, gael eu nodi ar wahân ar ddewislenni rhaglenni electronig. Nid ymddengys fod rheswm pam na allai ail amcan S4C, lefel briodol o amlygrwydd ar gyfer ei gwasanaethau ar ddewislenni rhaglenni electronig, gael ei fodloni.

Byddai modd cyflawni'r trydydd amcan yn haws hefyd pe byddai adnoddau yn cael eu ffocysu ar un gwasanaeth rhaglenni. Mae Rheolwr Rhaglenni newydd S4C eisoes wedi amlygu ei bwriad i ganolbwyntio ar ragoriaeth yn ystod oriau brig.

Ni ddylai'r pumed amcan aros tan ddiwedd darlledu analog. Dylai S4C nodi adnoddau ychwanegol yn fuan er mwyn galluogi S4C Digidol i gyflwyno gwasanaeth 'botwm coch'. Mae'r to newydd o siaradwyr Cymraeg yn cael eu magu fel gwylwyr rhyngweithiol. Bydd y strategaeth o apelio at y 'Cymry newydd' yn methu pan wynebir y rhwystr cyntaf os nad yw gwasanaeth rhyngweithiol yn rhan o'r gwasanaeth rhaglenni.

Bydd hefyd angen yr hyblygrwydd o ran sbectrwm sy'n gysylltiedig â gwasanaeth 'botwm coch' ar yr adegau hynny pan rennir y gwasanaeth craidd.

Bu'r amcan olaf, sef creu partneriaethau gwaith effeithiol, yn un o themâu'r adolygiad hwn. Y bartneriaeth gyda'r BBC yw'r un bwysicaf, a dylid pennu diffiniad clir o'i natur yn ystod 2004. Mae datganiad S4C ym mhroses Arolygu Siarter y BBC yn gwneud awgrymiadau penodol ynghylch sut y gellir datblygu'r bartneriaeth hirsefydlog rhwng y ddau ddarlledwr. Cytuna'r adolygwr hwn â barn y BBC mai adeg Arolygu'r Siarter yw'r adeg gywir i ddiwygio fformwla 1982 ar gyfer yr oes ddigidol.

Yr unig amcan a allai fod yn anodd i'w gyflawni yw'r uchelgais i ehangu amrywiaeth y gwasanaeth Cymraeg. Dengys ymchwil cynulleidfa S4C fod rhannau gwahanol niferus o fewn y garfan gyffredinol o wylwyr Cymraeg. Byddai amser darlledu ychwanegol ar ail neu drydedd sianel yn caniatáu i'r ystod ac amrywiaeth gael ei wella, ond, oni bai y gellid nodi ffynonellau ariannu newydd, byddai ansawdd mewn perygl. Yn ogystal, byddai gormod o raglenni unigol mewn gwasanaeth aml-sianel yn cael eu darlledu ar gyfer cynulleidfaoedd a oedd yn rhy fach i'w mesur.

Byddai'r ymagwedd a amlinellir uchod, lle y byddai'r gwasanaeth craidd yn cael ei rannu'n ddau ar adegau, yn cyd-fynd â strategaeth 'digwyddiadau' S4C ac yn cynnig ffordd ymlaen.

Ceir problem benodol wrth ddod o hyd i'r lle priodol yn yr amserlen ar gyfer darllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol, a ddarlledir ar S4C-2 ar hyn o bryd. Efallai y byddai'n bosibl mynd i'r afael â hynny drwy gyfuniad o ymagweddau – fel darlledu o'r dechrau i'r diwedd drwy'r gwasanaeth 'botwm coch' ochr yn ochr â rhaglenni arbenigol sy'n darlledu amrywiaeth o ddadleuon a thrafodaethau allweddol. Gallai cyfuniad o weddarlledu a darlledu fod yn ymagwedd synhwyrol.

Mae'r broblem ynghylch sut i ymdopi yn ystod y cyfnod rhwng nawr a diffodd darllediadau analog yn parhau. Yn ystod y cyfnod rhwng 2004 a diffodd y gwasanaeth analog, bydd yn rhaid i S4C ddarparu o leiaf dau wasanaeth – ei gwasanaeth analog a S4C Digidol – a thalu'r gost o wneud hynny. Ceir achos dros roi rhyw fath o ddifidend digidol i S4C yn ystod y cyfnod hwn – grant untro o bosibl i adlewyrchu costau gweithredu cynllun strategol diwygiedig.

O safbwynt S4C, po gynharaf y bydd y gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd, y gorau. Mae'r ymrwymiad presennol i ddarlledu dau wasanaeth cyhoeddus yn rhoi baich trwm ar ei sylfaen adnoddau ac, yn arbennig, ei gyllid presennol.

Bydd cynulleidfaoedd a gwerthiannau yn ystod oriau darlledu yn lleihau ymhellach pan fydd y sianel yn colli'r gwylwyr hynny sy'n gwylio S4C er mwyn gweld rhaglenni Saesneg o Channel 4. Ond bydd y dasg o ddarparu gwasanaeth o safon i wylwyr sydd am weld rhaglenni Cymraeg yn glir o ran ei ffocws.

Mae S4C wedi nodi ei bod am ddod o hyd i ddull o ddatblygu yn fuan ond mae'n rhaid iddi ddibynnu ar benderfyniadau a wneir y tu allan i S4C. Po gynharaf y gwneir y penderfyniadau hynny, y cynharaf y gall S4C nodi'r lefel gywir o wasanaeth ar gyfer y 21ain Ganrif.

Argymhellir y dylai S4C weithredu un gwasanaeth craidd ar ôl trosglwyddo i wasanaeth digidol gyda chyfleuster – ar adegau – i rannu'r gwasanaeth.

Argymhellir y dylai S4C Digidol gyflwyno gwasanaeth rhyngweithiol 'botwm coch' cyn gynted â phosibl.

12 Amserlen bosibl

Bydd angen gwneud penderfyniadau allweddol, yn enwedig ynghylch trefniadau darlledu gwasanaethau S4C, yn fuan.

Isod ceir crynodeb o amserlen bosibl ar gyfer rhai penderfyniadau allweddol a fydd yn codi yn ystod y ddwy flynedd nesaf:

2004

- Gwasanaeth rhaglenni dewisol S4C hyd at ac ar ôl diffodd y gwasanaeth analog;
- Yn dilyn ymgynghoriad â phartïon eraill, dod i gytundeb ar drefniadau darlledu S4C ar ôl diffodd y gwasanaeth analog;
- Cytundeb rhwng S4C a BBC Cymru ynghylch dyfodol y berthynas rhwng S4C a'r BBC;
- Cytundebau rhwng S4C a chynhyrchwyr annibynnol ynghylch cyflenwad rhaglenni 2005;
- Cytundeb ar leoliad gwasanaethau S4C ar ddewislenni rhaglenni electronig.

2005

- Cytundebau partneriaeth rhwng S4C a phartneriaid diwylliannol ac economaidd allweddol nad ydynt yn gysylltiedig â'r byd darlledu yng Nghymru;
- Dyfodol cyfranogiaid parhaus S4C yn SDN a'r capasiti a roddwyd iddi;
- dilyn canlyniad Adolygiad Darlledu Cyhoeddus OFCOM a'r Arolwg o Siarter y BBC, dod i gytundeb â'r DCMS ynghylch lefelau ariannu'r dyfodol i alluogi S4C i gyflawni ei chylch gwaith yn ystod y cyfnod hyd at ddiffodd y gwasanaeth analog.

Mae gan bob un o'r penderfyniadau uchod oblygiadau i strategaethau cyffredinol S4C. Ond mae'n rhaid i natur gwasanaeth rhaglenni y dyfodol ddod yn gyntaf.

Mae'r adolygiad hwn wedi dynodi ei fod o'r farn y dylid darlledu gwasanaethau craidd S4C ar ôl diffodd y gwasanaeth analog ar un sianel, a ategir gan wasanaeth rhyngweithiol, gyda'r gallu i rannu'r gwasanaeth ar adegau. Os mai dyna'r dewis, ni fydd symud o'r man hwn i'r man hwnnw yn hawdd.

Er mwyn cyrraedd y pwynt lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg o safon ar un sianel ddigidol efallai bod gofyn ailstrwythuro buddsoddiadau i ategu'r trefniadau ariannu parhaus. Byddai rhan o'r buddsoddiad hwnnw ar gael drwy adnoddau S4C ei hun; byddai angen i'r Llywodraeth ddarparu rhan ohono. Mae amseriad buddsoddiad unigol o'r fath yn dibynnu ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Digidol, ond mae'n annhebygol y bydd hyn cyn 2006.

Atodiad un: Adroddiad yr aseswr iaith gymraeg

A Crynodeb o'r ymgynghoriad yng nghymru

Caiff S4C ei werthfawrogi gan bawb, ond heb eithriad cyfaddefodd y rhai y cyfwelwyd â hwy eu bod yn gwylio dipyn yn llai na dwy flynedd yn ôl. Mae'r Cymry oddi cartref yn Llundain yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr.

2. Beth a wna S4C yn dda?
Ystod eang o ymatebion – plant ifanc yn arbennig, digwyddiadau, drama, diwylliant a gwledig.

3. Beth na wna S4C cystal?
Plant dros 7 oed (diffyg botwm coch), plant yn eu harddegau hwyr/oedolion ifanc a drama.

4. Cydbwysedd yn y Dyfodol
Rhaid denu 'Cymry newydd', heb gythruddo cynulleidfaoedd traddodiadol – gwaith anodd.

5. Blaenoriaeth
Barn unfrydol bron mai gwella'r hyn a gynigir yn ystod oriau brig yw'r flaenoriaeth. Ceir peth canfyddiad bod safon wedi dirywio o gymharu â sianeli eraill yn ystod oriau brig. Barn gymysg ynghylch ansawdd rhaglenni digidol y tu allan i oriau brig.

6. Diffodd y Gwasanaeth Analog
Nid oedd hanner y bobl y cyfwelwyd â hwy o blaid darlledu rhaglenni Saesneg eraill yn lle deunydd C4 a gollwyd, ond mae'n well ganddynt ddeunydd Cymraeg newydd o ansawdd gwell na'r hyn sydd ar deledu digidol ar hyn o bryd. Awgryma'r hanner arall ffilmiau a chyfresi dogfen o bob cwr o'r byd wedi'u trosleisio neu'u hisdeitlo fel rhan o'r arlwy a rhaglenni Saesneg o safon.

7. Ariannu ar gyfer Gwella
Yn gyffredinol cyfuniad o ragor o grant y DCMS a mwy o werth gan y BBC.

8. Ail Sianel
Pe byddai arian ar gael, byddai hanner y bobl y cyfwelwyd â hwy o'i phlaid, ond ym marn y rhan fwyaf o'r rhain nid yw'n realistig ar hyn o bryd. Ym marn y mwyafrif, roedd yn ddisgwyliad afrealistig yn y dyfodol agos. Roedd eraill o'r farn ei bod yn wrthgynhyrchiol codi'r mater hwn pan fo angen canolbwyntio ar gyfleu neges clir i'r DCMS a San Steffan fod angen arian ychwanegol ar Gymru er mwyn sicrhau rhaglenni o safon yn ystod oriau brig. Roedd teimlad nad oedd cefnogaeth wleidyddol i ariannu ail sianel.

9. Gwerth Ychwanegol
Yr iaith Gymraeg, plant ifanc, yr economi, hunaniaeth genedlaethol, diwylliant ac ati.

10. Ymgynghori a Gweithio mewn Partneriaeth
Roedd y sefydliadau llawr gwlad yn gwerthfawrogi partneriaeth S4C yn fawr. Roedd y partneriaid strategol yn fodlon ar gydweithrediad S4C o ran prosiectau ac ati ond fe'u siomwyd gan ei chyfraniad tuag at yr agenda strategol. Siomwyd diwydiant y cyfryngau gan y ffaith nad ymgynghorwyd ag ef ynghylch adolygiad S4C cyn ei gyhoeddi.

11. Dogfen Adolygiad Mewnol S4C

Ym marn y sefydliadau llawr gwlad roedd yn ddogfen ddefnyddiol a roddodd wybodaeth iddynt am heriau'r dyfodol. Yn ôl y rhai â phrofiad o baratoi strategaethau a chyflwyno ceisiadau am arian roedd y ddogfen yn rhy uchelgeisiol, heb ffocws ac nid oedd yn blaenoriaethu. Cyflwynodd BECTW, NUJ a TAC sylwadau ysgrifenedig ar yr adolygiad.

B Methololeg

1. Dewis y Bobl y Cyfwelwyd â hwy

1.1 Nododd yr Aseswr Iaith Gymraeg dri phrif grŵp a oedd yn cynrychioli ystod eang o ddiddordebau, *"gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r sectorau hynny lle yr oedd rôl S4C yn hynod bwysig"* (paragraff (a) Atodiad A o fanyleb y DCMS). Y grwpiau hynny â diddordeb oedd:

- Diwydiant y cyfryngau;
- Y gymuned Gymraeg;
- Sefydliadau Cymru gyfan.

Roedd y cynnig gwreiddiol yn cynnwys cyfweliadau â 22 o bobl. Cynhaliodd y Prif Aseswr a'r Aseswr Iaith Gymraeg gyfanswm o 33 o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr o 24 o sefydliadau.

1.2 Gan ddefnyddio cysylltiadau presennol, cyfeirlyfrau gwybodaeth Gymreig ac ati

a thrafodaethau anffurfiol, nododd yr Aseswr Iaith Gymraeg nifer o sefydliadau targed ym mhob grŵp â diddordeb. Yna gwnaethpwyd galwadau ffôn i gadarnhau priodolrwydd y bobl a oedd yn cael eu cyfweld a phryd yr oeddent ar gael. Hefyd gofynnwyd i'r bobl y cyfwelwyd â hwy i ddarllen dogfen S4C *'Gwasanaeth Teledu Cymraeg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif?'* cyn y cyfweliad.

Dylanwadodd nifer o ffactorau ar y dewis terfynol:

– Amlochrog – lle y bo'n briodol, gallai'r bobl y cyfwelwyd â hwy gynrychioli mwy nag un grŵp â diddordeb (e.e. Sefydliad Cenedlaethol/Rhiant, Sefydliad Lleol/Dysgwr)

– Lleoliad – cynhaliwyd y cyfweliadau yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De. Cynhwyswyd sefydliadau yn y Gymru wledig a threfol.

– Triongli – sicrhaodd y rhestr y cynhwyswyd cynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau llawr gwlad.

Ceir rhestr o'r bobl y cyfwelwyd â hwy a'u dosbarthiad yn Nhabl 1.

2. Cynllun a Gweithdrefnau Cyfweliadau

2.1 Yn dilyn trafodaethau gyda'r Prif Adolygydd, penderfynwyd defnyddio fformat a oedd yn debyg i holiadur gwefan yr Arolwg o Siarter y BBC, gan ymgorffori pwyntiau ychwanegol o ddogfen Adolygiad Mewnol S4C.

Yn dilyn sawl cyfweliad peilot byr, diwygiwyd y fformat i gynnwys adran wybodaeth am drefniadau ariannu presennol S4C cyn trafod opsiynau ariannu'r dyfodol ac ail sianel bosibl

gyda'r bobl y cyfwelwyd â hwy. Roedd y diwygiad hwn yn ddefnyddiol wrth 'reoli' dyheadau. Dengys Tabl 3 isod 'strwythur' terfynol 'y cyfweliad'.

2.2 Cynhaliwyd y cyfweliadau wyneb yn wyneb, naill ai yng ngweithle'r unigolyn neu mewn lleoliad cyfleus. Dim ond pedwar cyfweliad a gynhaliwyd dros y ffôn. Mewn nifer o achosion (BBC/Awdurdod Datblygu Cymru/TAC) cynhaliwyd cyfweliadau dilynol gan y Prif Adolygydd ar y cyd â'r Aseswr Iaith Gymraeg.

2.3 Ar gyfer y gymuned Gymraeg, mabwysiadwyd fformat lled-strwythuredig ar gyfer cyfweliadau. Roedd y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda diwydiant y cyfryngau a sefydliadau Cymru gyfan yn llai strwythuredig. Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig gan sawl cynrychiolydd o ddiwydiant y cyfryngau (TAC, BECTW a NUJ) hefyd. Mewn rhai achosion (e.e. Sgrîn, WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru) canolbwyntiodd y cyfweliad ar rai pwyntiau penodol (e.e. Cronfa Ffilm Cymru, Strategaeth Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cynulliad Cymru/materion economaidd, cyflwyno Band Eang).

Archwiliwyd perthynas bosibl yn y dyfodol rhwng S4C a sefydliadau sy'n cynrychioli'r gymuned Gymraeg yn y cyfweliad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cynhaliwyd cyfweliadau â sawl lluniwr barn sy'n gweithio yn y rhyngwyneb diwylliannol/gwleidyddol hefyd.

2.4 Cynhaliodd y Prif Adolygydd a'r Aseswr Iaith Gymraeg drafodaethau anffurfiol gyda nifer o fynychwyr Cynhadledd ddeuddydd ym mis Mawrth ar 'Gyfathrebu yng Nghymru ar ôl y Ddeddf Gyfathrebu' ym Mhrifysgol Aberystwyth hefyd.

2.5 Lluniwyd crynodeb o brif bwyntiau'r cyfweliadau yn rheolaidd. Rhoddwyd ymateb dros dro i'r Prif Adolygydd yn seiliedig ar gwblhau'r rhan fwyaf o'r cyfweliadau erbyn 9 Ebrill. Fe'i diweddarwyd cyn cynnal cyfarfod gyda S4C ar 20 Ebrill pan yr oedd bron pob cyfweliad wedi'i gwblhau.

Cwblhawyd y dadansoddiad terfynol o ganfyddiadau'r cyfweliad yn yr wythnos yn dechrau 25 Ebrill.

2.6 Ym manyleb y DCMS, fe'i gwnaed yn ofynnol hefyd i "ystyried fel y bo'n briodol ym marn yr adolygydd, y canlyniad a'r dystiolaeth sy'n deillio o broses adolygu mewnol diweddar S4C".

Archwiliwyd amrywiaeth o ddogfennaeth. O ganlyniad bu'n bosibl i'r Aseswr Iaith Gymraeg asesu'r canlynol yn ansoddol:

- Ystyriaeth y Bwrdd o faterion strategol a rheoliadol;
- Digwyddiadau yn arwain at adolygiad mewnol S4C;
- Y berthynas rhwng S4C a'r gwneuthurwyr rhaglenni annibynnol;
- Effaith economaidd S4C.

Yn ogystal archwilwyd 'Cynlluniau Corfforaethol' S4C (Cynlluniau Blynyddol mewn gwirionedd) ar gyfer 2002-04, 2003-05 a 2004-06 a'r cynlluniau adrannol.Dadansoddwyd y targedau o ran perfformiad.

C Dadansoddi'r cyfweliadau

1 Sylwadau ar Ddogfen Adolygiad Mewnol S4C

1.1 Y Gymuned Gymraeg

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr 'llawr gwlad' o'r farn bod y ddogfen adolygu yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Ym marn y rhai â phrofiad o baratoi strategaethau a chyflwyno ceisiadau am arian roedd y ddogfen yn rhy uchelgeisiol, heb ffocws ac nid oedd yn blaenoriaethu.

1.2 Diwydiant y Cyfryngau

"Yn falch bod S4C bellach yn mynd i'r afael ag ansawdd".

"Dogfen uchelgeisiol iawn, at bwy y mae wedi'i hanelu? Yn well i gael nifer o sefyllfaoedd wedi'u costio i sicrhau cyfranogiad gwleidyddion a llunwyr barn".

"Mae S4C yn ddigon dewr bellach i gyfaddef bod camgymeriadau wedi'u gwneud a bod ansawdd wedi'i fygwth yn sgîl cyllidebau annigonol".

2 Beth a wna S4C yn Dda a Beth na wna Cystal?

Roedd hwn yn gwestiwn 'agored'. I ryw raddau, mae'r ymatebion yn adlewyrchu chwaeth personol y bobl y cyfwelwyd â hwy ond nodwyd y canlynol:

– Da Nododd nifer uchel blant ifanc – nododd eraill yn gyson ddigwyddiadau, drama, celfyddydau a materion gwledig.

– Ddim Cystal Nododd y rhan fwyaf blant dros 7 oed, plant yn eu harddegau hwyr/oedolion ifanc a drama.

2.1 Da : Rhaglenni Plant

2.1.1 Dyma a raddiwyd orau yn yr ymatebion i genres o ran yr hyn a wna S4C yn dda. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn rhieni ac eraill â ffrindiau â phlant yn gwerthfawrogi rhaglenni ar gyfer plant o dan 6 oed yn fawr.

"Ffenestr ar yr iaith Gymraeg yn fy nhŷ – pan fydd fy mhlant yn dod â ffrindiau adref, mae cael rhaglen Gymraeg i blant ar y teledu yn sicrhau eu bod yn sgwrsio yn Gymraeg".

2.1.2 Pwysleisiodd nifer yr angen i restru rhaglenni i blant ar S4C ar wahân yn y Dewislenni Rhaglenni Electronig (ategwyd hyn gan NUJ a oedd yn credu y dylai Ofcom ddefnyddio ei ddylanwad).

2.1.3 Rhywfaint o dystiolaeth (sampl bach) bod plant dros 6 oed yn tueddu gwylio sianeli eraill yn hytrach na S4C. Priodola rhieni hyn i:

– Diffyg cyfleusterau rhyngweithiol ar S4C;

– Nid yw'r hyn a gynigir i blant dros 6 oed mor ddeniadol â'r hyn a gynigir ar sianeli eraill.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd sy'n dynodi unwaith y bydd y plentyn hynaf yn cyrraedd 6/7 oed, mae ef/hi yn tueddu i reoli'r broses o ddewis rhaglenni sy'n tueddu bod ar draul rhaglenni plant S4C.

2.1.4 Pwysleisiodd nifer yr angen i ddangos mwy o raglenni plant yn gynnar yn y bore (fel y gwnaed dros wyliau'r Nadolig). Fel arall, mae plant yn gwylio CBeebies a sianeli eraill cyn mynd i'r ysgol. (Yn ôl un llythyr i S4C gan athro ysgol gynradd, mae hyn yn dylanwadu ar iaith a sgyrsiau plant pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol yn y bore).

2.1.5 Roedd sawl un a oedd o blaid ail sianel o'r farn y dylid ei defnyddio ar gyfer rhaglenni plant yn bennaf.

2.1.6 Sylwadau Eraill

"A yw rhaglenni plant S4C yn 'dangos ymwybyddiaeth' o Agenda Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cynulliad Cymru?"

"Mae rhaglenni plant yn hanfodol o ran gweithredu strategaeth Iaith Pawb (dwyieithog) Llywodraeth Cynulliad Cymru."

2.2 Ddim Cystal

Roedd yr ymatebion yn fwy amrywiol ac ni raddiwyd un categori penodol yn uchel. Y rhai a raddiwyd bron yn gyfartal oedd:

- Plant dros 7 oed
- Plant yn eu harddegau hwyr/oedolion ifanc
- Drama (nodwyd hwn hefyd fel genre y mae S4C yn ei wneud yn dda)

O ran plant dros 7 oed, nodwyd diffyg cyfleusterau rhyngweithiol fel un o'r rhesymau pam nad yw'r hyn a gynigir gan S4C cystal â sianeli Saesneg. Cyfeiriwyd hefyd at absenoldeb rhaglenni plant S4C yn y Dewislenni Rhaglenni Electronig.

3 Cydbwysedd yn y Dyfodol

Ni chefnogodd un o'r ymatebion roi mwy o bwyslais ar y 'gynulleidfa draddodiadol'.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr o blaid rhoi mwy o bwyslais ar raglenni ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg 'newydd'. Nododd eraill y gwaith anodd o gydbwyso'r broses o roi mwy o bwyslais ar y gynulleidfa Gymraeg 'newydd' tra'n cadw'r gynulleidfa draddodiadol.

4 Cyflwyno Rhaglenni Newydd yn lle Deunydd Channel 4 a gollir ar ôl Diffodd y Gwasanaeth Analog

O blith y gymuned Gymraeg, roedd tua hanner o blaid gweld deunydd Cymraeg yn cymryd lle deunydd Channel 4 a gollir. Awgrymodd y gweddill naill ai cyfuniad o ddeunydd Cymraeg a thramor (wedi'i isdeitlo neu'i drosleisio) neu gyfuniad o raglenni Saesneg a thramor. Awgrymodd yr olaf y gallai'r ymagwedd hon ddenu cynulleidfaoedd newydd a mwy o refeniw hysbysebu i S4C.

Ymhlith ymatebion diwydiant y cyfryngau mae:

- Rhagor o gydgynhyrchiadau gyda'r BBC ac eraill.
- Gallai colli rhaglenni Channel 4 roi mwy o hyblygrwydd i S4C wrth amserlennu rhaglenni.
- Y cyfle i gyflwyno rhaglenni Saesneg o safon.

Dywedodd un cynhyrchydd "Bydd diffodd y gwasanaeth analog yn cynnig heriau i'r BBC a S4C. Yn fy marn i dylai Awdurdod Darlledu i Gymru fod yn gyfrifol am reoli S4C Digidol a slotiau cytûn penodol ar ba sianel ddigidol bynnag y bydd y BBC yn penderfynu lleoli

gwasanaeth y gwledydd a'r rhanbarthau y dyfodol. Rhagwelaf y gallai S4C Digidol gynnig cartref parhaol i raglenni fel y rhai a geir ar BBC2W".

5. Ariannu ar gyfer Gwella

Ymhlith yr opsiynau a gynigiwyd mae rhagor o grant DCMS, rhagor o werth gan y BBC, cyfuniad o'r DCMS/S4C. Yr ymateb oedd:

- DCMS tua hanner o blaid
- BBC ychydig iawn o blaid
- BBC/DCMS tua hanner o blaid

Pwysleisiodd y mwyafrif o gynrychiolwyr cymunedau Cymraeg a diwydiant y cyfryngau y dylid defnyddio arian newydd i wella safon rhaglenni presennol cyn ceisio sefydlu ail sianel.

"Dylent ganolbwyntio ar wella safon yn ystod oriau brig ac ehangu i gyfnodau eraill pan fo arian yn caniatáu hynny."

6. A yw Un Sianel yn Ddigonol?

6.1 Ac eithrio diwydiant y cyfryngau, roedd hanner yr ymatebwyr o'r farn nad oedd un sianel yn ddigonol i ddiwallu anghenion amrywiol cynulleidfa Gymraeg. Ategodd nifer o'r rhain eu hymateb drwy nodi ei bod yn afrealistig disgwyl arian ychwanegol ar gyfer ail sianel. Dim ond tua chwarter na wnaethant ategu eu hymateb yn y ffordd hon.

6.2 Ym marn y mwyafrif roedd yn afrealistig disgwyl arian ar gyfer ail sianel yn y dyfodol agos. Yn ogystal â'r cyfyngiadau ariannol, ystyriwyd bod prinder gwylwyr a diffyg talent yn gyfyngiadau.

6.3 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at lwyddiant BBC Radio Cymru wrth reoli a bodloni ei chynulleidfa amrywiol ar un sianel. Roeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod hyn wedi dieithrio rhywfaint o'i chynulleidfa draddodiadol.

6.4 Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc ar sianel newydd.

6.5 Diwydiant y Cyfryngau

Croeso amodol i egwyddorion ail sianel. *"Mae angen sicrhau arian newydd sylweddol i gyflawni hyn ac mae'n rhaid mynd i'r afael ag ansawdd rhaglenni sy'n bodoli eisoes yn gyntaf"*. Awgrymodd sawl ymatebydd mai ychydig iawn o gefnogaeth wleidyddol a roddwyd i ddarparu arian ychwanegol ar gyfer sianel newydd. (Nid yw'r sefyllfa hon yn debyg i'r sefyllfa ar adeg sefydlu'r sianel pan oedd pawb ar eu hennill).

"Ni ddylai S4C arbrofi gyda sianel newydd pan fo'r sianel graidd mewn trafferthion".

7. O ystyried ei hadnoddau cyfyngedig, a ddylai S4C geisio gwella ei gwasanaeth oriau brig neu geisio ariannu gwasanaeth Cymraeg drwy gydol y dydd?

Nododd mwyafrif ymatebwyr y gymuned Gymraeg y dylid canolbwyntio ar fuddsoddi mewn gwella rhaglenni yn ystod oriau brig:

"Mae ehangu i'r byd digidol wedi cyfaddawdu ansawdd ac wedi amddifadu gwylwyr oriau brig o ansawdd gwell".

Ym marn yr ymatebwyr iau dylid rhoi pwyslais ar yr oriau nad ydynt yn rhai brig:

"Mae angen i S4C wasanaethu pob categori ac ni all wneud hyn o fewn yr oriau brig cyfyng".

Mynegodd nifer o ymatebwyr eu barn nad oedd yr hyn a gynigiwyd gan S4C Digidol yn ystod oriau nad ydynt yn rhai brig yn waeth na'r hyn sydd ar gael ar sianeli eraill.

8. Ymhle yng Nghymru y mae S4C eisoes yn ychwanegu gwerth?

Unwaith eto, roedd hwn yn gwestiwn agored. Nododd y rhan fwyaf yr iaith Gymraeg/economi Cymru, plant, hunaniaeth genedlaethol/diwylliant/dysgwyr, cydlyniad rhwng rhanbarthau Cymru. Roedd y Cymry oddi cartref yn gwerthfawrogi'r cysylltiad â Chymru yn fawr.

9. Ymgynghori a Gweithio Mewn Partneriaeth

9.1 Sefydliadau Llawr Gwlad

Ychydig o brofiad o ymgynghori â S4C oedd ganddynt, os o gwbl. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i S4C fel partner rhagorol ar brosiectau – ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd mae'r Groto Nadolig a fu o gymorth i sefydliadau llawr gwlad fel TWF a Mentrau Iaith a fu hefyd yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a chynyddu gwerthfawrogiad o S4C. Bu o gymorth i'r economïau lleol hefyd.

9.2 Sefydliadau iaith Gymraeg

Yn rhagorol wrth weithio ar brosiectau penodol e.e. Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod CFfI.

O ran trafod materion strategol, roeddent yn llai cadarnhaol:

- Mudiad Ysgolion Meithrin : heb fod yn rhan o drafodaethau strategolgyda S4C am nifer o flynyddoedd.
- Merched y Wawr : ddim mor dda â'r BBC a HTV gynt wrth gysylltu â ni'n rheolaidd:
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg : ceir enghreifftiau o gydweithio ond mae'r rhain yn eithriadau.

Mynegodd pob un ohonynt ddyhead i gynnal trafodaethau gyda S4C ar heriau'r dyfodol, rhaglenni ymchwil ac ati. Mae S4C a'r sefydliadau iaith Gymraeg yn rhannu llawer o heriau. Mae pob un ohonynt yn hapus i S4C ddefnyddio eu rhwydweithiau helaeth at ddibenion ymchwil y farchnad ac ati.

Ceir canfyddiad, oherwydd ei chyllid ar wahân, bod S4C wedi'i 'gwahanu' osefydliadau Cymraeg eraill yn Genedlaethol.

9.3 Diwydiant y Cyfryngau

Canfyddiad nad yw S4C wedi bod yn dda wrth ymgynghori â'r diwydiant yn y gorffennol. *"Nid yw S4C yn ymateb yn dda i feirniadaeth adeiladol".* Roedd sawl sefydliad o'r farn bod S4C wedi dilyn ymagwedd fwy cadarnhaol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

10. Y berthynas gyda'r BBC

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn penodol ynghylch y berthynas rhwng S4C a'r BBC. Pan godwyd y cwestiwn hwn gan y bobl y cyfwelwyd â hwy (gweler Pennod 3, paragraff 3.1 o Adolygiad Mewnol S4C), dywedodd y cyfwelydd mai'r ffordd orau o ystyried materion

trefniadol oedd fel rhan o adolygiad Ofcom o'r BBC. Serch hynny, roedd sawl person y cyfwelwyd â hwy (ac un cyflwyniad ysgrifenedig) o'r farn bod angen archwilio'r materion. Nodir eu sylwadau isod:

"Siom bod cyn lleied o gydweithredu rhwng S4C a'r BBC. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer y dyfodol. Angen iddo fod yn llawer mwy na'r cydgynhyrchiad achlysurol. Heb gydweithio â'r BBC yng Nghymru, sut y bydd S4C yn sicrhau ei hygrededd mewn amgylchedd aml-lwyfan?"

"Dylai Cymru fod yn ddigon dewr i fynd i'r afael â pherthynas y BBC/S4C. Roedd S4C yn *ymateb ugeinfed ganrif yng Nghymru – h.y. bwrdd a ddewiswyd yn annibynnol gyda dwy swyddogaeth, nifer o sefydliadau tebyg yng Nghymru. Mae'r strwythur hwn yn hen ffasiwn iawn bellach ac nid yw o gymorth i S4C mewn amgylchedd aml sianel digidol. A oes angen Bwrdd S4C arnom? Ble y mae gwerth ychwanegol sefydliad ar wahân?"*

"Ar gyfer y dyfodol, mae angen i S4C ddatblygu cysylltiadau strategol gyda'r BBC, gan rannu buddiannau technoleg newydd ym myd y cyfryngau. Canllawiau Ofcom ar gyfer rhaglenni rhanbarthol – a all S4C eu defnyddio er ei budd ei hun a chynorthwyo'r BBC ac ITV ar yr un pryd?"

"Dylid dod i ryw fath o gytundeb gyda BBC Radio Cymru ynghylch cytundeb hysbysebion o'r ddwy ochr. Mae proffiliau gwylio a gwrando siaradwyr Cymraeg yn ategu ei gilydd yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd e.e. gwrandawyr aeddfed/traddodiadol y radio yn ystod y dydd tan tua 6.30pm sydd yna'n gwylio S4C. Gallai hefyd weithio gyda'r BBC o ran rhaglenni a gomisiynir ar y cyd e.e. S4C/BBC2 Cymru."

"Mae'r berthynas rhwng S4C a'r BBC wedi bod yn ad-hoc. Angen gwella'r berthynas rhyngddynt. Rhai datblygiadau addawol yn ddiweddar pan gyfarfu Pennaeth Rhaglenni newydd S4C â chynhyrchwyr BBC rhaglenni S4C (y tro cyntaf am sawl blwyddyn). Ychydig o adborth a gaiff cynhyrchwyr y BBC (ar gyfer rhaglenni S4C) ar berfformiad gwylio, os o gwbl (gall fod yn broblem o fewn y BBC). Nid ystyrir cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C fel blaenoriaeth uchel o fewn y BBC – rhaglenni'r rhwydwaith sy'n cael y flaenoriaeth."

"Angen gweithio'n agosach gyda'r BBC. Sut gall S4C elwa ar wefan ardderchog y BBC a'i fuddsoddiad mewn cyfryngau newydd? Angen gwell cysylltiadau rhwng S4C a gwefannau'r BBC. A all y BBC a S4C gydweithredu'n well ar hysbysebion a marchnata?"

"Efallai y bydd yr adolygiadau amrywiol o ddarlledu cyhoeddus a addawir gan Ofcom yn rhoi cyfle i S4C ddiffinio trefn ranbarthol newydd. Ers cryn amser, rwyf wedi credu y dylid sefydlu awdurdod darlledu i Gymru – ar gyfer darllediadau Cymraeg a Saesneg. Mae'n anos i gyfiawnhau'r rhaniad rhwng S4C a'r BBC gan fod grymoedd y farchnad a sefydliadau rheoliadol newydd yn uno'r ddau. Ar hyn o bryd mae'r BBC a S4C y tu allan i gylch gorchwyl Ofcom. Ni welaf hyn yn parhau. Byddai awdurdod darlledu i Gymru yn cael arian o gronfa ganolog – cronfa darlledu cyhoeddus er enghraifft, gyda S4C yn gyfrifol am yr holl ddarllediadau Cymraeg – ar y radio a theledu. Nid yw'r rhaniad trefniadol rhwng BBC Radio Cymru a S4C yn gynaliadwy o ystyried maint y gynulleidfa Gymraeg. Byddai BBC Cymru yn gyfrifol am yr holl ddarlledu cyhoeddus Saesneg yng Nghymru. Byddai'r strwythur rheoli newydd hwn yn galluogi pob gwasanaeth iaith i gryfhau ei uchelgeisiau amlgyfrwng neu ddeugyfrwng".

11 Heriau a Chyfleoedd

Yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaeth digidol, nododd ymatebwyr nifer o heriau a chyfleoedd eraill.

11.1 Demograffeg (Her)

"Mae'r heriau eraill sy'n wynebu S4C yn rhai sy'n ymwneud â demograffeg a daearyddiaeth e.e. lleihad a ragdybir yn nifer y bobl ifanc dros y degawd nesaf, poblogaeth ifanc yn symud o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol, yn enwedig i Gaerdydd."

Gwnaed sawl sylw tebyg.

"Mae angen i S4C ddeall a disgwyl effaith y newid ieithyddol – y Cymry 'newydd' yn y De Ddwyrain, cynnydd yn nifer y cartrefi iaith gymysg, a mudiad pobl ifanc i ardaloedd trefol mawr.

"Mae dosbarth proffesiynol newydd yn dod i'r amlwg a fydd ond yn ymrwymo i ddigwyddiadau Cymraeg os ydynt o safon ac yn gweddu i'w chwaeth."

11.2 Gweithio gydag Eraill (Cyfle)

"Mae'n rhaid i S4C barhau i gefnogi agendâu Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran Iaith Pawb a'r Cwricwlwm Blynyddoedd Cynnar".

"Mae'n rhaid i ELWa, S4C, y BBC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg gydweithio'n agos wrth gyflwyno agenda Iaith Pawb y Cynulliad".

"Mae'n rhaid i S4C helpu i hyrwyddo cydgynhyrchiadau sydd â marchnadoedd rhyngwladol".

"Mae angen i S4C dargedu grwpiau penodol – mae'n rhaid i'r hyn a gynigir i blant o dan 6 oed fod mor ddeniadol â'r hyn a gynigir ar sianeli Saesneg (gan gynnwys cyfleusterau rhyngweithiol); rhaid cynnig dewis llawer gwell i blant dros 7 oed; pobl ifanc a rhieni ifanc; teuluoedd iaith gymysg".

11.3 Seilwaith Diwylliannol

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at Ganolfan y Mileniwm newydd i Gymru a'r Theatr Genedlaethol newydd fel cyfleoedd i S4C gydweithio a chydgynhyrchu.

11.4 Technoleg/Rheoliad Newydd

"Y brif her yw cael S4C a'r sector 'dibynnol/annibynnol' i amrywio ac edrych y tu hwnt i Gymru am fusnes. Dylai'r ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag IPR sbarduno'r cwmnïau annibynnol mwy uchelgeisiol."

"Unwaith y cyflwynir Band Eang ledled Cymru, yn yr hirdymor, dylai S4C weld ei hun fel darparwr cynnwys digidol yn hytrach na dull darparu".

"A yw S4C wedi asesu goblygiadau hirdymor cynhyrchwyr annibynnol yn cadw IPR i S4C. Dylai newid strwythur S4C yn fawr iawn".

"Os bydd y trefniant ariannu cyhoeddus yn newid – fel y mae rhai yn awgrymu o ran yr arolwg o Siarter y BBC, efallai y bydd S4C yn canfod ei hun yn cystadlu am adnoddau prin yn erbyn lleiafrifoedd eraill, mwy niferus mewn Prydain aml-ddiwylliannol. Mae'n argoeli'n ddyfodol heriol".

12 Yr Economi a S4C

Cynhaliwyd asesiad manwl o effaith economaidd S4C gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Prifysgol Caerdydd, yn 2001 sef "Economy and Culture: S4C in Wales – Present and Potential Economic Improvements".

12.1 Ymatebion y Cyfweliadau

Nodwyd 'buddiannau economaidd' S4C gan ganran uchel o'r ymatebwyr. Gwnaed rhai sylwadau cadarnhaol a rhai sylwadau mwy gofalus gan ddiwydiant y cyfryngau a llunwyr barn.

"Wedi arwain at ddatblygiad nifer fawr o gwmnïau sy'n ymwneud â'r cyfryngau a chwmnïau sy'n ymwneud â'r byd ffilm yn arbennig yng Nghymru. Ystyrir rhai o'r rhain – Tinnopolis a Barcud Derwen fel cwmnïau â chyfleusterau o'r radd flaenaf bellach ac maent yn adnabyddus (drwy gaffael yn bennaf) mewn sawl gwlad. Mae cadwyni cyflenwi da yng Nghymru yn sicrhau'r buddiannau gorau posibl i economi Cymru."

"Ystyrir bod gweithgareddau S4C o fudd economaidd sylweddol yng Nghymru. Mae cwmnïau â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth uchel a chadwyni cyflenwi wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf yn y Gogledd a'r Gorllewin. Polisi comisiynu S4C yw'r rheswm am hyn. Yn anffodus, gyda rhai eithriadau mawr (Boomerang, Barcud Derwen a Tinnopolis) ychydig o'r cwmnïau hyn sydd wedi gweithredu ym marchnadoedd y DU ac Ewrop, ond maent wedi bod yn gyflenwyr i un cleient – S4C."

"Ychydig o'r cwmnïau annibynnol sydd wedi datblygu marchnadoedd rhyngwladol neu hyd yn oed marchnadoedd yn y DU. Mae'r rhan fwyaf yn rhy ddibynnol ar S4C".

"Bu buddiannau economaidd er y collwyd cyfle oherwydd y berthynas fonopoli rhwng S4C a'r cwmnïau annibynnol. Ychydig o ryngwladoli'r cwmnïau ac felly nid yw'n glwstwr gwirioneddol a gwydn".

Mae'r sylwadau hyn (yn 2004) yn debyg iawn i'r pwyntiau a wnaed yn adroddiad Uned Ymchwil Economi Cymru 2001 ac yn wir adroddiad David Graham Associates 1998 a gomisiynwyd gan TAC.

Tabl 1: Rhestr a Dyraniad y Bobl y Cyfwelwyd â hwy.

• = Prif sector, ✓ sectorau eraill	*Diwydiant y Cyfryngau*	*Y Gymuned Gymraeg*	*Diwylliannol*	*Dysgwyr*	*Ieuenctid*	*Plant Ifanc*	*Fforymau Barn/ Economaidd*	*Cymru gyfan*
1. Cyngor Celfyddydau Cymru (Drama)				•	✓			✓
2. Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyffredinol)			•			✓		✓
3. BBC	•	✓	✓	✓	✓	✓		✓
4. BECTW	•							✓
5. Bwrdd yr Iaith		•		✓	✓	✓		✓
6. ELWa				✓	✓			•
7. Equity	•		✓					✓
8. Menter Caerdydd (Menter Iaith)		•	✓	✓	✓	✓		
9. Menter Iaith, Sir Ddinbych (fel 8)	•	✓	✓	✓	✓			
10. Sefydliad Mercartor/Thomson	•	✓	✓					
11. Merched y Wawr	•	✓	✓					✓
12. Cymdeithas Tai				•		✓		✓
13. Mudiad Ysgolion Meithrin	•					✓		✓
14. NUJ	•							
15. Popeth Cymraeg (Elusen addysgol, dysgwyr)	✓		•					
16. Sgrîn	•							✓
17. TAC (Cymdeithas Cynhyrchwyr Annibynnol Cymru)	•							✓
18. Twf (Prosiect Iaith Llawr Gwlad)		✓		✓		✓		
19. WDA (Economeg)							✓	✓
20. Urdd Gobaith Cymru		•	✓	✓	✓	✓		✓
21. Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru		✓		✓	✓			
22. Lluniwr Barn 1	✓	✓	✓				✓	•
23. Ymgynghorydd Annibynnol (Datblygu Economaidd a Chysylltiadau'r Cyfryngau)		✓					✓	✓
24. Lluniwr Barn 2	✓	✓	•				✓	✓
25. Awdurdod Datblygu Cymru (Technoleg Cyfryngau)							✓	✓
26. Bwrdd TAC	•	✓	✓			✓		✓
27. Ofcom Cymru	•						✓	✓
28. Llywodraeth Cynulliad Cymru		•	•	✓			✓	✓
29. Cynhadledd Aberystwyth	•	✓	✓				✓	✓
30. BBC	•		✓					✓
31. HTV / ITV	•							✓
32. Boomerang	•	✓	✓		✓			

Tabl 2: Cynrychioliadau Ysgrifenedig i'r DCMS a S4C

Llythyrau i'r DCMS

1. Mrs R East, Port Talbot
2. Alwyn Jones, Llundain
3. Hugh L Evans, y Siroedd Cartref, a hefyd sgyrsiau ffôn gyda'r Prif Adolygydd a'r Aseswr iaith Gymraeg
4. G A Evans, y Siroedd Cartref
5. Eluned Miller, Llundain
6. Rhys Owen, Llundain
7. Cynhyrchydd Annibynnol

Llythyr i S4C

Siân E. Roberts, Porthmadog

Tabl 3: Strwythur y Cyfweliad Terfynol

1. Amlinelliad o Adolygiad y DCMS

Cefndir, rôl y Prif Adolygydd, Roger Laughton, a rôl Meurig Royles, yr Aseswr Iaith Gymraeg, a gynhaliodd y rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau yng Nghymru.

2. Cyflwyniad

2.1 Cadarnhau'r dewis iaith.

2.2 Enw, statws, sefydliad.

2.3 Unrhyw aelod arall o staff y sefydliad sydd mewn cysylltiad â S4C? Manylion?

2.4 I ble yr ânt fel arfer i gael manylion am amserlenni rhaglenni S4C?

2.5 Patrymau gwylio personol.

3. Adolygiad Mewnol S4C

– Cadarnhau eu bod wedi darllen dogfen yr Adolygiad.

– Unrhyw rannau y maent yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf â hwy?

– Problemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaeth digidol?

– Sut y dylai S4C ymateb i'r sefyllfa?

3.1 Beth a werthfawrogwch fwyaf am S4C?

3.2 Beth a wna S4C yn dda a beth na wna cystal?

3.3 Sut y dylai S4C gydbwyso'r canlynol yn y dyfodol: 'Y Gynulleidfa Gymraeg Draddodiadol', cyrraedd 'Y Gynulleidfa Gymraeg Newydd' (cynnyrch Cymraeg ifancach Addysg Gymraeg yn y De Ddwyrain a'r Gogledd Ddwyrain).

4. Diffodd y Gwasanaeth Analog

Effaith colli rhaglenni a gwasanaeth Channel 4:

Opsiwn 1: Y sefyllfa sydd ohoni – rhaglenni o safon yn ystod oriau brig yn ogystal â'r hyn a gynigir ar deledu digidol yn ystod oriau nad ydynt yn rhai brig ar hyn o bryd

Opsiwn 2: Prynu rhaglenni Saesneg neu raglenni o dramor i ddenu gwylwyr i raglenni eraill

Opsiwn 3: Ceisio dangos deunydd Cymraeg newydd yn lle'r deunydd a gollwyd

Sylwadau eraill?

5. Ariannu

Ar hyn o bryd ariennir S4C gan;

– Grant y DCMS o £80 miliwn

– Incwm arall o £13.5 miliwn ac incwm arall

– Cyfanswm o £100.7 miliwn

+ 10+ awr yr wythnos am ddim gan y BBC

Sut y dylem ariannu gwelliannau yn y gwasanaeth?

5.1 Rhagor o grant DCMS – argaeledd?

5.2 Mwy o werth i wylwyr S4C drwy ffi'r drwydded y BBC?

5.3 Tanysgrifiadau?

6. A all un gwasanaeth ddiwallu anghenion pob siaradwr Cymraeg?

7. Gwerth Ychwanegol

8. Ymhle yng Nghymru y credwch fod S4C yn ychwanegu gwerth?

9. Ymgynghori a Gweithio Mewn Partneriaeth

9.1 Pa mor dda yw S4C wrth ymgynghori?

9.2 Pa mor dda yw S4C wrth weithio mewn partneriaeth?

9.3 Unrhyw gysylltiad â S4C o ran materion strategol?

10. Unrhyw sylwadau eraill?

Atodiad dau: Adolygu canolfannau costau

Peirianneg, Technoleg a Rheoli Sianeli (Cyllideb 2004: £10.1 miliwn. Staff 2004 : 70.5 o Gyflogeion Amser Llawn)

Gweithreda S4C ei chanolfan ddarlledu ei hun yng Nghaerdydd. Ymhlith y porthiant mewnol mae'r BBC, y Cynulliad a Channel 4; ymhlith y porthiant allanol mae gwasanaeth daearol analog, DSat, DTT ac NTL. Yn ogystal mae angen delio â newid amser cynhyrchiadau Channel 4 ynghyd â gwaith hyrwyddo a gofynion is-deitlo.

Cynyddodd costau staff o ganlyniad i gyflwyniad y gwasanaethau digidol, ond roedd y penderfyniad i ddefnyddio mwy o staff mewnol ar gyfer gwasanaeth parhaus yn gost effeithiol. Mae'r cyflogau yn is na Llundain a lefelau rhanbarthol cyfredol ITV.

Y prif gostau yw'r contractau ar gyfer darlledu gwasanaethau analog a digidol – tua £6.7 miliwn – cost a ddylai gwympo'n sylweddol pan ddiffoddir y gwasanaeth analog.

Efallai y bydd achos dros ddarparu gwasanaethau darlledu drwy ffynonellau allanol mewn blynyddoedd i ddod. Gall gwasanaethau darlledu a chyfleusterau trydydd parti fod o fudd mawr i ddarparwr sianel unigol o ran costau. Cyn belled ag y bo'r gwasanaeth analog yn parhau, mae'n debygol nad dyma'r ymagwedd gywir ar gyfer S4C. Ond dylai'r rheolwyr barhau i adolygu'r opsiwn hwn.

Mae'r cynllun a'r ymgyrch farchnata ar yr awyr yn ddeniadol gan adlewyrchu arddull sianel arwyddocaol. Ceir uned Graffeg greadigol sy'n gwasanaethu'r wasg a deunydd a argraffir yn ogystal â'r gwasanaethau ar y sgrîn.

Hyd yn hyn, ni cheir unrhyw wasanaethau rhyngweithiol, sy'n fwlch y mae angen ei lenwi er mwyn cystadlu â darlledwyr digidol eraill. Bydd hyn yn golygu un buddsoddiad sylweddol ac, yn dibynnu ar uchelgais y gwasanaethau a gynigir, costau blynyddol ychwanegol. Ond dylai'r arbedion cost blynyddol ar ôl diffodd y gwasanaeth analog wneud yn iawn am hyn.

Marchnata, Swyddfa'r Wasg a Materion Corfforaethol (Cyllideb 2004 : £4.27 miliwn. Staff 2004 : 36.5 o Gyflogeion Amser Llawn

Gellid dweud bod y cyllidebau blynyddol yn y meysydd hyn yn rhy fach ar gyfer gorsaf genedlaethol ac yn rhy fawr ar gyfer gorsaf ranbarthol.

Fodd bynnag, mae marchnata yn datblygu i fod yn fwy hanfodol wrth i S4C geisio gadw mewn cysylltiad â'i chynulleidfaoedd targed. Wrth i gynulleidfaoedd ddirywio ac ymrannu, mae cymorth marchnata oddi ar yr awyr yn datblygu i fod yn fwy hanfodol.

Yn arbennig, mae'r anhawster a brofir wrth sicrhau amlygrwydd digonol ar gwybodaeth am ddewislenni rhaglenni mewn papurau newydd a chylchgronau yn golygu bod angen defnyddio dulliau cyfathrebu eraill, fel y cylchgrawn SGRIN (dosbarthiad:37000) yn fwy rheolaidd.

Gweithreda S4C wefan brysur, os nad yn undonog, mewn dwy iaith sydd i ryw raddau yn gwneud iawn

o ryw fath am ddiffyg rhestri rhaglenni amlwg. Ond mae'r cyferbyniad rhwng gwefan S4C a gwasanaethau rhyngweithiol BBC Cymru yn ymdebygu i'r cyferbyniad rhwng Spitfire a Concorde, gan adlewyrchu gwariant blynyddol enfawr y BBC ar ddatblygu ei wasanaethau rhyngweithiol ar draws ei rwydweithiau.

Dylai'r newid arfaethedig tuag at amserlen sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau fynd law yn llaw ag adolygiad o wariant ac effeithlonrwydd cyfredol yr adran farchnata. Er ei bod yn annhebygol y gellir arbed costau sylweddol, mae lle i adolygu effeithlonrwydd gwariant nad yw'n gysylltiedig â rhaglenni eto. Er enghraifft, mae gwariant yr adran materion corfforaethol dipyn uwch nag y byddai unrhyw ddarlledwr masnachol yn ei farnu'n angenrheidiol, nodwedd o bob darlledwr cyhoeddus.

Gydag amser, fel sianeli eraill, mae'n debygol y bydd angen i S4C wario mwy i gyrraedd llai. Bydd hyn yn golygu diffinio amcanion cyfathrebu allweddol y sianel a'u cysylltu'n glir â'r strategaethau ar y sgrîn. Gallai cynnal enw da am ddarllediadau effeithiol o gemau rygbi clybiau Cymru fod yn un amcan o'r fath.

Is-deitlo (Cyllideb 2004 : £1.0 miliwn. Staff 2004 : 1)

Mae isdeitlau yn darparu dwy swyddogaeth i S4C.

Maent yn galluogi gwylwyr sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw i wylio rhaglenni na fyddent fel arall yn gallu eu mwynhau. Y targed ar gyfer yr agwedd hon ar y gwasanaeth yn 2004 yw 80%, sydd ychydig yn uwch na gofyniad rheoliadol OFCOM (ond sy'n unol â thargedau blaenorol y Comisiwn Teledu Annibynnol). Gellir defnyddio'r gwasanaeth drwy dudalen 888 Teletestun. Darlledir nifer o raglenni gydag isdeitlau agored, gan wneud rhaglenni S4C yn fwy hygyrch i siaradwyr di-Gymraeg – yn fwyaf nodedig rhifyn omnibws Pobol y Cwm, lle y mae dwy ran o dair o'r gynulleidfa ar gyfer yr ailddarllediad ar nos Sul yn ddi-Gymraeg yn aml.

Yn ogystal, ar dudalen 889 Teletestun, darlledir isdeitlau Cymraeg syml, a fwriedir ar gyfer dysgwyr, am ddeg awr yr wythnos. Nid yw hyn yn ofyniad rheoliadol, ond fe'i gwelir gan S4C fel gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg sydd â nam ar eu clyw. Y fantais ychwanegol yw ei fod yn cynorthwyo dysgwyr.

Dirprwyir cyllidebau is-deitlo i gynhyrchwyr annibynnol, gyda cherdyn prisio sy'n pennu'r hyn y mae S4C yn ei dalu, yn seiliedig ar wybodaeth y sianel o'r farchnad hon. Mae'r swydd fewnol yn sicrhau y caiff y gwaith is-deitlo rhwng S4C, cyflenwyr rhaglenni a chwmnïau is-deitlo ei gynllunio, ei gydlynu a'i fod yn cydymffurfio. Caiff y gwaith o reoli ansawdd a'r gwaith paratoi ar gyfer darllediadau ei wneud gan dîm annibynnol ar sail contract.

Yn ddiweddar adolygodd S4C y gwasanaeth isdeitlo gan ganolbwyntio'n arbennig ar hygyrchedd.

Atpdoad tri: Adolygiad mewnol S4C 2004: Crynodeb

Dyma grynodeb S4C ei hun o'i hadolygiad mewnol 'Gwasanaeth Teledu Cymraeg ar gyfer yr 21ain Ganrif'.

i) Mae penderfyniad S4C i alw am adolygiad o'i gweithredoedd yn adlewyrchu'rnewidiadau enfawr sy'n digwydd o fewn darlledu ac yn y boblogaeth y'i sefydlwyd i'w gwasanaethu. Mae'r amgylchedd darlledu y mae S4C yn rhan ohono heddiw yn wahanol iawn i'r hyn a fodolai pan lawnsiwyd y gwasanaeth, fel y sianel deledu Gymraeg gyntaf erioed, 22 mlynedd yn ôl. Mae S4C yn parhau i fod yn un o ddim ond pedwar gwasanaeth teledu sydd ar gael ar drosglwyddyddion analog yn y rhan fwyaf o Gymru. Mae'n parhau i ddarlledu gwasanaeth sy'n cynnwys rhaglenni Cymraeg yn bennaf yn ystod oriau brig a'r goreuon o allbwn Channel 4 ar adegau eraill. Ond mewn mwy na hanner holl gartrefi Cymru mae S4C yn awr yn un o fwy na dau gant o sianeli sydd ar gael trwy deledu digidol. Rhaid i gynlluniau S4C ar gyfer y dyfodol sicrhau fod y sianel yn medru cystadlu'n llwyddiannus o fewn tirwedd darlledu llawer mwy cystadleuol. Amlinellir elfennau allweddol gweledigaeth S4C ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus wedi ei foderneiddio'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif yn y ddogfen hon. Ynghyd â hunan asesiad S4C o'i gweithgareddau ei hunan ac o'r heriadau y mae'n eu hwynebu, bwriedir y rhain fel man cychwyn i'r broses adolygu allanol sydd wedi cael ei chytuno iddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

ii) Mae diffodd analog yn cynrychioli her ond hefyd yn gyfle pwysig i S4C. Os yw S4C am fachu ar y cyfle hwnnw, bydd angen gwneud newidiadau yn natur y gwasanaeth ymae'n ei ddarparu. Bydd rhaid iddi gadw i fyny gyda disgwyliadau cynyddol ei gwylwyr. Bydd rhaid iddi ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymafael â'r gwylwyr hynny. Bydd angen iddi, er enghraifft, gryfhau ei darpariaeth o raglenni fel bod mwy o uchafbwyntiau i'r gwasanaeth; bydd angen iddi gynnal ystod ac amrywiaeth os yw hiam gyflawni ei chyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus llawn ar gyfer siaradwyr Cymraeg; bydd angen i S4C ddatblygu cynnwys rhyngweithiol a bydd angen bargen newydd ar gyfer rhaglenni plant yn gyson gyda disgwyliadau cynyddol plant a'u rhieni. Oni fo hyn yn digwydd bydd darlledu Cymraeg yn cael ei ystyried yn israddol. Mae darlledu dros y we yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer dod â chynnwys Cymraeg ei iaith at sylw cynulleidfa fyd-eang. Wrth i gynnwys sy'n seiliedig ar deledu ddod ar gael fwy fwy trwy ystod newydd o lwyfannau digidol, mae gan S4C gyfrifoldeb pwysig i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw a byw ar y llwyfannau hynny.

iii) Mae'r newidiadau sy'n digwydd o fewn y boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn tanlinellu pwysigrwydd parhaus y gwasanaeth y mae S4C yn ei ddarparu. Bu twf calonogol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Mae yna rai arwyddion calonogol y dylai rhan o leiaf o'r twf hwn fod yn gynaladwy. Ond mae tuedd i'r iaith Gymraeg chwarae rôl wahanol ym mywydau y to newydd o siaradwr Cymraeg nag y mae hi ar gyfer y cymunedau Cymreig traddodiadol sy'n parhau i fod yn rhan sylweddol o gynulleidfa S4C. Rhaid i S4C barhau i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ac adloniant i'r rhan honno o'r boblogaeth y mae'r iaith yn ran sylfaenol o'u bywyd bob dydd. Ond gall S4C chwarae rhan bwysig hefyd wrth atgyfnerthu safle'r iaith ym mywydau'r to newydd o siaradwyr Cymraeg.

iv) Wrth i'r diffodd nesáu, bydd angen i S4C ymateb i'r her hon heb gefnogaeth y gwasanaeth cynhaliol y mae rhaglenni Channel 4 wedi eu darparu ar y gwasanaeth analog. Gwir bryder Awdurdod S4C yw fod ei gallu i ddarparu gwasanaeth teledu ystod eang o ansawdd cyson-uchel eisoes yn cael ei erydu gan gyfyngiadau yn y fformwla cyllido sydd wedi ei glymu i chwyddiant. Mae yna nifer o gostau technegol sylweddol hefyd yn gysylltiedig ag ehangu'r rhwydwaith digidol. Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad na fydd S4C yn medru achub ar y cyfle i ddarparu gwasanaeth llawn o ansawdd uchel ar lwyfannau digidol, sy'n cynnig ystod o fuddiannau cymdeithasol ehangach, ar sail y fformwla ariannu a gynlluniwyd i gefnogi gwasanaeth sy'n darlledu am bum awr y dydd yn unig ar analog.

v) Mae'r adolygiad yn cyflwyno ystod o dystiolaeth sy'n awgrymu fod S4C yn gwneud efnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael iddi ar hyn o bryd. Mae'r swm y mae S4C yn ei wario am bob awr o raglennu yn sylweddol is na'r hyn a werir gan ei chystadleuwyr. Mae gwariant ar gostau cyffredinol yn cymharu'n ffafriol gyda maincfesuriadau ar draws y diwydiant. Mae'r adolygiad hefyd yn dod i'r casgliad fod y £14 miliwn mewn trosiant masnachol a gynhyrchir gan S4C Rhyngwladol yn agos at, neu hyd at, y lefel uchafswm y gellir ei gynhyrchu heb ysgwyddo elfen annerbyniol o risg fasnachol.

vi) Wrth ymgyrraedd tuag at y weledigaeth o wasanaeth cyhoeddus wedi ei foderneiddio ac yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif, awgryma'r adolygiad y dylid adolygu perthynas unigryw-bwysig S4C gyda'r BBC, fel rhan o Adolygiad Siarter y BBC sy'n digwydd yn awr. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau presenoldeb hygyrch ar bob platfform digidol a chwrdd â chostau ehangu'r rhwydwaith drosglwyddyddion digidol daearol tra'n amddiffyn cyllideb rhaglenni S4C.

vii) Mae rhan derfynol adolygiad yr Awdurdod yn cynnwys archwiliad o'r manteision cymdeithasol ehangach a geir o ganlyniad i'r gwasanaeth rhaglenni. Mae'r buddion ehangach hyn o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniadau rhaglennu S4C, sy'n ceisio sicrhau taw'r amcan drwodd a thro ddylai fod i gyflwyno S4C fel gwasanaeth cyhoeddus. Mae gallu S4C i ddarparu'r buddion ehangach hyn wedi'i gysylltu'n agos gyda'i gallu i ddarparu gwasanaeth sy'n ddeniadol ac yn medru cystadlu'n llwyddiannus mewn amgylchedd darlledu cynyddol gystadleuol. Mae rhannau cyntaf yr adolygiad yn amlinellu'r math o newidiadau mae'r Awdurdod yn credu a fydd yn angenrheidiol os yw S4C am barhau i weithredu'n llwyddiannus. Bydd gallu S4C i ddarparu'r ystod ehangach o fuddion sy'n gysylltiedig â'i gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth wedi ei foderneiddio yn ddibynnol ar allu S4C i ddarparu'r newidiadau hyn erbyn y daw amser y diffodd.

Atodiad pedwar: Dogfennau a ddarparwyd gan S4C

1. Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Cyfrifon : 1998 – 2003
2. S4C: Ariannu ar gyfer yr Oes Ddigidol: 2001
3. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd ar yr Adolygiad Strategol: 2002
4. Samplau o Gofnodion y Bwrdd (2002-2004)
5. Papur Strategol y Cadeirydd i'r Bwrdd : 2002
6. Agendâu ar gyfer Pwyllgorau Archwilio (samplau)
7. Cynllun Archwilio 2003
8. Dyfyniad o Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol i Awdurdod S4C ar gydberthnasau â chynhyrchwyr annibynnol : 2003
9. Nodiadau'r staff a Dyddiau Cwrdd i Ffwrdd Aelodau'r Awdurdod : 2003
10. Papur Sefyllfa S4C ar Ddiffodd y Gwasanaeth Analog : 2003
11. Cynlluniau Corfforaethol S4C : 2002-2004, 2003-2005, 2004-2006
12. Cynlluniau adrannol : 2004-2006
13. Adolygiad Mewnol S4C : 2004
14. Cod Ymarfer S4C ar Gomisiynu Rhaglenni : 2004
15. Ymateb S4C i ymgynghoriad OFCOM ar reoleiddio Dewislenni Rhaglenni Electronig: 2004
16. Ymateb S4C i'r Arolwg o Siarter Brenhinol y BBC : 2004
17. Catalog Rhyngwladol S4C : 2004
18. Data Ymchwil Cynulleidfa S4C : amrywiol

Dogfennau Eraill

1. Adroddiad Graham ar Gynhyrchu Annibynnol yng Nghymru: David Graham Associates : 1998
2. Wales on Screen: golygydd, Steve Blandford : 2000
3. Economy and Culture : Present and Potential Impacts of S4C : Uned Ymchwil Economi Cymru : 2001
4. Y Ddeddf Cyfathrebu : 2003
5. Iaith Pawb : Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog : Llywodraeth Cynulliad Cymru : 2003

6. Araith gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r RTS Cynhadledd Caergrawnt : 2003
7. Dogfen Friffio'r BBC par. perthynas y BBC/S4C: 2003
8. Cynllun Gweithredu Teledu Digidol : 2004
9. Gwasanaethu Defnyddwyr Dinesig yn yr Oes Ddigidol: OFCOM : 2004
10. Adolygiad o Ddarlledu Cyhoeddus, Rhan Un : OFCOM: 2004